**PDZ 5. AFON TEIFI:**



*Aber Afon Teifi*

# Pen y Bal i Bencribach (gan gynnwys Aber Afon Teifi ac Ynys Aberteifi)

## CYNNWYS

Tudalen


PDZ 5. AFON TEIFI : .......... 65

1 Disgrifiad Lleol .......... 68


2 Prosesau’r Arfordir .......... 71

3 Senarios Rheoli .......... 76

4 Cymhariaeth ac Asesiad Cryno o Senarios man cychwyn. .......... 83

5 Trafodaeth a Datblygu Polisi Manwl .......... 88

6 Crynodeb Rheoli. .......... 91




*Parth Datblygu Polisi 5*

## Diffiniadau o Senarios a Ystyriwyd wrth Ddatblygu Polisi

Mae'r adran hon yn diffinio'r amrywiol senarios sy'n cael eu defnyddio o hyd wrth drafod y Parth Datblygu Polisi.

| Cynnydd yn Lefel y Môr |
|---|
| Mae'n cael ei dderbyn bod ansicrwydd o hyd ynghylch cynnydd yn lefel y môr (SLR). Gall cymryd gwahanol senarios cynnydd yn lefel y môr effeithio ar faint effaith neu amseriad rhai newidiadau, naill ai o ran rheoli cynaliadwy neu o ran effeithiau. Yn y drafodaeth isod o'r senarios rheoli man cychwyn a gwahanol, defnyddiwyd canllawiau DEFRA ar gynnydd yn lefel y môr yn gyffredinol. Pan fo teimlad, yn unrhyw ardal benodol, bod effaith cynnydd yn lefel y môr yn arwyddocaol ac y gallai newid cyd-destun rheoli, caiff y drafodaeth hon ei chynnal mewn blwch ar wahân, perthnasol i'r darn hwnnw o destun. |

**Senarios rheoli;**

*Senario Digyfyngiad*
Dan y senario hwn, caiff ymddygiad yr arfordir ei ystyried fel pe na bai unrhyw amddiffynfeydd o waith dyn, i bob diben fel pe na baent yno mwyach yn ddirybudd. Er bod rhaid cydnabod mai senario hollol ddamcaniaethol yw hwn, mae'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut ydym yn dylanwadu ar ymddygiad yr arfordir ac, felly, y pwysau ac effaith ehangach sy'n cael eu cyflwyno. Mae hyn yn cynorthwyo asesu'n gyntaf sut fyddai'r arfordir eisiau newid, ond hefyd mae'n cynorthwyo diffinio terfynau rhyngweithiad y dylai'r CRhT fod yn eu hystyried.

*Senarios Man Cychwyn*

- ***Dim Ymyriad Gweithredol (NAI) – Senario 1**,* lle na fyddai unrhyw waith ychwanegol i gynnal neu newid amddiffynfeydd. Ar ddiwedd eu bywyd gweddilliol, byddai adeileddau'n methu. Ni fyddai uchder amddiffynfeydd yn cael ei gynyddu i wella safonau amddiffyniad.
- ***Gyda Rheoli Presennol (WPM) – Senario*** **2**. Mae'r senario hwn yn cymhwyso'r polisïau a bennwyd yn CRhT1 neu, pan fo hynny'n berthnasol, mae'n derbyn polisïau a ddiweddarwyd neu a eglurwyd, os gwnaed gwaith dilynol, e.e. astudiaethau neu strategaethau. Mewn llawer o fannau, nid yw'r agwedd at reolaeth a ddiffiniwyd yn CRhT1 ond yn cwmpasu cyfnod o 50 mlynedd. Os felly y mae, tybiwyd mai'r bwriad yw dal i reoli'r arfordir yn y dyfodol fel y mae heddiw. Dylid nodi nad yw WPM o angenrheidrwydd yn awgrymu Cadw'r Llinell ymhob rhan o'r parth. Mewn llawer man gall rheoli presennol fod yn Ddim Ymyriad Gweithredol neu Adlinio Rheoledig.

Nod Dim Ymyriad Gweithredol yw nodi beth sydd mewn perygl pe na chynhaliwyd amddiffynfeydd. Yn yr un modd, bwriad Gyda Rheoli Presennol yw ymchwilio sut all yr arfordir ddatblygu, gan nodi lle mae buddiannau wrth reoli fel hyn neu ble gall materion godi yn y dyfodol.

Ar ddiwedd yr isadran hon mae crynodeb a chymhariaeth o'r perygl economaidd ar gyfer pob un o'r senarios man cychwyn, seiliedig ar ddadansoddiad MDSF (Fframwaith Cynnal Modelu a Phenderfynu) a wnaed yn ystod CRhT (gan gynnwys canlyniadau astudiaethau eraill pan fo hynny'n berthnasol). Caiff y senarios man cychwyn eu hasesu hefyd o ran sut maent yn rhoi sylw i'r amcanion cyflawn ar gyfer y Parth. Y gymhariaeth hon rhwng y senarios man cychwyn sy'n paratoi'r llwyfan ar gyfer trafod senarios rheoli eraill posibl sy'n rhoi gwell sylw i bob mater. Mae'r drafodaeth hon yn yr isadran ddilynol.

## 1 Disgrifiad Lleol

Mae'r parth yn cwmpasu Aber Afon Teifi, i fyny'r afon i Aberteifi a'r ddau ddarn o arfordir agored clogwyn craig galed i'r gogledd ac i'r de o'r aber. Mae'r ardal gyfan fwy neu lai yn dod o fewn naill ai ACA Bae Ceredigion neu ACA Afon Teifi, gyda dim ond rhan ddeheuol y clogwyni'n cael ei hepgor. Felly, mae llawer o'r ardal yn dod o fewn dynodiadau SoDdGA hefyd. Mae'r diddordebau cydnabyddedig yn rhedeg o ddiddordeb pwysig llysieuegol a bioleg y môr, trwodd i leoliadau o werth geomorffolegol a ffisiograffig rhyngwladol. Mewn amryw ardaloedd mae'r diddordebau hyn yn ymestyn tua'r tir tu hwnt i linell y clogwyni, i gynnwys y glaswelltir heb ei wella a gweundiroedd bras yn Aber-porth, gwerth pwysig y llethrau arfordirol gwlyb meddalach yng Ngwbert, neu Gors Pentood Teifi fewnol.

Dynodwyd Dyffryn Teifi i gyd yn Ardal Dirwedd Hanesyddol bwysig ac mae ceyrydd pentir cynhanesyddol yng Nghastelltreruffydd, yn Abercibwr ac yng Ngwbert, ynghyd â Hen Gastell Aberteifi o'r canoloesoedd a Chastell Aberteifi ar Afon Teifi, sydd i gyd yn Henebion Rhestredig. Mae llond gwlad o adeiladau rhestredig yn Llandudoch ac yn enwedig o gwmpas ardal y Castell, glan yr afon a'r bont yn Aberteifi.

Mae'r gwerthoedd hanesyddol a gwarchod natur hyn yn gryf yn yr ardal hon, gan roi cyd-destun rheoli o fewn ardal o werth amgylcheddol, diwylliannol a hanesyddol eithriadol.




Creigiau caled yn bennaf yw clogwyni'r arfordir agored ar ddwy ochr yr aber, yn nodweddiadol, gyda chyfres greigiog o glogwyni uchel, pentiroedd cul a baeau a childraethau bach.

Mae darnau lleol o greigiau meddalach, yn nodweddiadol wrth gefn y baeau bach ac yn creu ardaloedd o ansadrwydd llethrau arfordirol lleol.

Ar hyd y clogwyni tua'r de, y mwyaf sylweddol o'r baeau hyn yw Ceibwr, lle mae'r bae'n ymestyn yn ôl rhyw 300m o linell y clogwyni gyda blaendraeth â chefn graean a phont droed fach yn ffurfio rhan o lwybr yr arfordir. Yn gyffredinol, prysgwydd neu dir pori amaethyddol yw crib llinell y clogwyn. Nid oes unrhyw anheddau ar gopa'r clogwyn.




Yn yr un modd, dôl arw'n bennaf yw'r arfordir i'r gogledd o Afon Teifi. Dim ond yn y Mwnt mae yna faes parcio, Odyn Galch, ffordd, grisiau mynediad a chyfleusterau'n agos at grib y llethr arfordirol o glai meddalach. Pentir Pencribach ym mhen gogledd-ddwyreiniol y Parth yw Sefydliad Awyrennau Brenhinol Aber-porth. Mae hwn yn ôl o ymyl yr arfordir yn gyffredinol.

Mae Aber Afon Teifi'n torri dyffryn

llydan, siâp ‘V’ nodweddiadol yn y draethlin greigiog hon. Craig galed yw’r clogwyni allanol, yn ffurfio Trwyn Cemais i’r de-orllewin a Chraig-y-Gwbert ac yn rhedeg allan i Ynys Aberteifi, i’r gogledd-ddwyrain. Y clogwyni hyn sy’n diffinio mynedfa’r aber sy’n wynebu’r gogledd-orllewin. O boptu, mae’r clogwyni craig galetach yn newid yn greigiau meddalach, ymhellach i mewn i’r fynedfa. Ar yr ochr ddeheuol mae Clogwyni Castell Penrhyn, gydag amrywiol eiddo uwchben a’r lanfa fach a chwt cychod yng Nghei-bach. Ar yr ochr ogleddol mae’r clogwyni agored caletach islaw pentref Gwbert, gyda’r llethr arfordirol meddalach yn cwympo ac yn rhedeg trwodd i Ben-yr-ergyd, gyda ffordd yr arfordir yn rhedeg ar gopa’r llethr.



*Twyni a Chymuned Poppit*

Mae Traeth Poppit eang yn estyn allan ar draws yr aber allanol o’r de, ac mae prif sianel yr aber yn llifo’n agos at droed clogwyni Gwbert ar yr ochr ogleddol. Mae traethell sylweddol ar draws ceg y sianel a thu cefn i Draeth Poppit mae Twyni Poppit. Mae ardal y twyni’n llenwi llawr y dyffryn ac yn blaenu ar ardal o brysgwydd, gyda’r ffordd a chymuned fechan Poppit y tu ôl iddi. Codwyd ambell eiddo yn y twyni, ac mae prif orsaf achub gyda’r lan RNLI yn sefyll yn agos at flaen y twyni ar eu pen gogleddol. Mae’r tir pori tu ôl i’r ffordd yn codi’n gymharol serth.

Ar ben deheuol y twyni mae sianel yr aber yn torri’n agos iawn yn erbyn blaen y twyni ac mae wedi erydu pob darn o Dafod Tywod Poppit blaenorol, oedd yn arfer ymestyn i’r aber mewnol, a llawer o’r morfa heli o flaen Gwesty Webley. Mae ffordd yr arfordir yn codi dros dir uwch o Westy Webley trwodd i Landudoch, lle mae eto’n disgyn i ymyl yr aber. Mae ochr ddeheuol yr aber yn tueddu i fod yn ddarn cul o forfa heli a thraeth graean, sy’n gorwedd yn agos iawn at y llethr.



*Aber Afon Teifi*

Ar ochr ogleddol yr aber, mae Tafod Pen-yr-ergyd, nodwedd raean yn bennaf, wedi ymestyn ar draws y fynedfa gyferbyn â phen deheuol Twyni Poppit. Wrth wraidd y tafod mae ardal dwyni uwch Maes Carafanau Patch. Mae’r tafod a’r twyni’n cyfyngu ar led y fynedfa i’r aber mewnol, sy’n lledu fel arwynebedd mawr o bonciau tywod rhynglanwol, gyda morfa heli ar yr ymylon. Yng nghysgod uniongyrchol Tafod Pen-yr-ergyd mae’r clwb hwylio ac, yn rhedeg tua’r de yn agos at ymyl yr aber, mae Coronation Drive, y brif fynedfa i'r Gwbert ac eiddo ar hyd ymyl yr aber mewnol o Aberteifi. Mae’r aber mewnol yn bwysig i’w ddiwydiant pysgota bach, gydag angorfeydd yn sianel y fynedfa ac yn ddiweddar darparwyd glanfa nofiol yng nghysgod Tafod Pen-yr-ergyd. Hefyd mae nifer sylweddol o angorfeydd cysylltiedig â’r clwb hwylio yn yr ardal hon.

Nodwyd bod defnydd hwn yr ardal gyfan, gan gynnwys Twyni Poppit, y mynediad i'r aber a Maes Carafanau Patch, yn bwysig i dwristiaeth ac i'r economi lleol.

Ar hyd ystlys ddwyreiniol yr aber mewnol mae ychydig eiddo ar wahân yn agos at y llethr sy'n ffurfio'r rhan hon o draethlin yr aber. Mae'r aber yn culhau tua'r de wrth iddo ddynesu at Landudoch, a ffurfio dechrau'r aber uchaf.

Ar ochr Llandudoch mae pont ffordd fach a glanfa, lle mae'r ffordd yn disgyn i'r blaendraeth. Yna mae'r ffordd yn codi tu ôl i dai sydd ar hyd ochr yr aber. Ar yr ochr ddwyreiniol mae brigiad craig galed Fferm y Castell yn cyfyngu'r brif sianel, gan gulhau'r sianel yn geunant bron rhwng y brigiad hwn a'r lan uwch ar ochr Llandudoch. Ychydig eiddo sydd yn y darn culaf hwn o'r aber uchaf at gopa'r llethr uchel ar yr ochr ddwyreiniol. Yna mae llinell y sianel yn ysgubo o gwmpas i redeg rhwng dwyrain a gorllewin allan i ddyffryn agored ehangach heibio tref Aberteifi. Mae natur y sianel yn newid o aberol i fwy afonol heibio Aberteifi, gyda Chors Pentood fawr ond amddiffynedig yn union i fyny'r afon o bont ffordd yr A487 i'r dwyrain o Aberteifi. Fodd bynnag, mae terfyn arferol llanw'r afon ryw 3km ymhellach i fyny'r afon o'r dref ac mae effaith dylanwad y llanw ar lefelau'r afon yn cael ei theimlo mor bell â Llechryd sy'n 6.5km o Aberteifi.


***Aber Uchaf Afon Teifi***

Ar ochr Llandudoch yr afon mae ambell eiddo'n agos at y brif sianel wrth iddi ddod allan i ran letach y dyffryn yn Aberteifi. Mae eiddo hefyd ar hyd y lan ddeheuol uwch yng nghyffiniau'r brif dref. Ar ochr Aberteifi mae'r prif waith trin carthion ac wedyn eiddo a busnesau yn Netpool, lle mae Afon Mwldan yn ymuno ag Afon Teifi, ac ar hyd Cei Cambrian a wellwyd yn ddiweddar, ychydig i lawr yr afon o'r hen bont. I fyny'r afon o'r bont hon, mae'r amddiffynfeydd yn is, fel y mae'r tir y tu ôl i'r amddiffynfeydd yn ardal y Strand a'r Ysbyty, ar yr ochr ogleddol, a Ffordd yr Orsaf, Stad Ddiwydiannol Pentood a'r Farchnad ar y lan ddeheuol. Mae'r hen reilffordd yn gweithredu fel amddiffynfa rannol i Gors Pentood i fyny'r afon o'r bont newydd ar yr ochr ddeheuol, ac mae'r brif A484 o Gastellnewydd Emlyn yn ôl tu cefn i gaeau isel ar yr ochr ogleddol.




Ers CRhT1 symudwyd y terfyn Atodlen 4 a ddiffiniwyd gan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949 o Landudoch i Bont y Ffordd Osgoi. Mae hyn yn adlewyrchu natur arfordirol yr ardal o amgylch Aberteifi.

## 2 Prosesau'r Arfordir

Dros y prif arfordir o glogwyni agored, mae'r prosesau'n gymharol uniongyrchol. Mae'r arfordir yn gymharol agored i hinsawdd donnau sy'n donnau mawr o'r de-orllewin yn bennaf, trwodd i Fôr Iwerddon tua'r de. Yn ogystal, mae effaith tonnau sylweddol o'r gorllewin trwodd i'r gogledd. Mae'r clogwyni caled yn dal i erydu'n araf iawn ac fe ffurfiodd baeau, lle mae darnau o greigiau meddalach, ac yn aml mae llethrau arfordirol clog-glai hawdd eu herydu y tu cefn iddynt, yn eu pennau. Lle bo'r baeau'n ddigon pell mewn cilfach, ffurfiodd traethau tywod a graean. Mae tuedd i erydu deunydd meddalach yn barhaus a, gyda chynnydd yn lefel y môr, bydd y traethau'n treiglo'n ôl, ynghyd â mwy o ansadrwydd llethrau ac erydu'r creigiau meddal.

Mae'r prosesau a amlinellwyd uchod yn digwydd hefyd yn rhan allanol, glogwynog Afon Teifi. Fodd bynnag, o fewn prif ardaloedd allanol a mewnol yr aber, mae prosesau'n llawer mwy cymhleth a heb eu deall yn hollol fanwl. Serch hynny, bu amryw astudiaethau o'r ardal hon a datblygwyd consensws o ran sut mae ymddygiad presennol yn datblygu at ei gilydd. Mae siartiau hanesyddol yn dangos bod prif sianel yr aber yn arfer llifo'n gymharol ganolog rhwng y domen uwch wrth wraidd Pen-yr-ergyd a'r tafod tywod sy'n ffurfio i mewn i'r aber o Dwyni Poppit. Roedd Traeth Poppit yn dal i ymestyn ar draws ceg yr aber allanol, gyda'r brif sianel yn rhedeg drwyddynt. Oherwydd rhyw ddigwyddiad, neu duedd yn y prosesau, efallai llong ddrylliedig yn rhwystro sianel yr aber neu broses fewnlenwi o fewn yr aber mewnol, cafodd newid ei ennyn sydd wedi datblygu ers troad y ganrif aeth heibio (rhywbryd rhwng 1907 a 1938). Y symudiad pwysig oedd bod y sianel allanol wedi symud drosodd i'r ochr ogledd-ddwyreiniol islaw Clogwyni Gwbert. Gadawodd hyn i Draeth Poppit ddatblygu dros brif arwynebedd yr aber allanol, gan dueddu i ddal y sianel i'r dwyrain. Wedyn, gyda'r sianel yn y sefyllfa hon a dŵr dyfnach a'r clogwyni'n fwy agored (yn enwedig y clogwyni clai meddalach a'r traethau ar hyd y draethlin ddwyreiniol), dechreuodd y rhannau hyn erydu.

Bryd hynny, roedd maint a sefyllfa flaenllaw Pen-yr-ergyd yn tueddu i ddal llif y brif




sianel draw oddi wrth Glogwyni Gwbert i'r gogledd. Wrth i Ben-yr-ergyd erydu a dod yn llai amlwg, felly'r oedd y sianel letach ac effaith y tonnau'n tueddu i erydu llinell y clogwyni. Amddiffynnwyd y darn hwn o glogwyn a, gyda chyfyngiad ychwanegol ar gyflenwad gwaddod, teneuodd y tafod eto tra'r oedd yn dal i ymestyn fel crib raeanog ar draws yr aber. Daliodd y tafod hwn i dyfu, gan orfodi erydiad Tafod Tywod Poppit a newid ffurf y sianelau yn yr aber mewnol. Cysylltiedig â'r newidiadau hyn fu twf y twyni ym mhen gogleddol Twyni Poppit, wrth i'r lan hon gael bolio allan tu cefn i Draeth Poppit. Hefyd, gyda'r newid yn sefyllfa'r sianelau, bu newid yn sefyllfa twf ac erydiad morfa heli yn yr aber mewnol. Ar adeg CRhT1 roedd pryder y gallai'r tafod graean dorri. Yn y blynyddoedd ers hynny er bod y grib raeanog wedi culhau, ni fu digon o stormydd

mawr gyda dŵr uchel dros y degawd diwethaf i chwalu’r rhwystr. Fodd bynnag, mae’r tafod yn mynd yn llai drwy’r adeg gan wneud toriad yn fwy anochel. Ar adeg CRhT1 roedd ansicrwydd hefyd a fyddai’r tafod yn dal i dyfu tua’r gorllewin, gan dorri ymhellach tu ôl i Dwyni Poppit. Ystyriwyd yn fwy tebygol y byddai atgam yn datblygu wrth i lifau gynyddu yn sianel gyfyngedig y fynedfa. Cadarnhawyd hyn trwy arolygu ac arsylwi.

Effaith yr atgamu fu cyfyngu mwy ar lifau a hybu cronni yn y sianel berfedd gul y tu ôl i’r tafod, ac i’r cyfleuster pysgota a’r clwb hwylio.


**Mynedfa’r Teifi yn dangos Tafod Pen-yr-Ergyd wedi’i ail-grymu**
(Afon Teifi Fairway Cyf. Cynllun Busnes 2009)

Tra bo modd rhagweld y bydd y tafod yn torri, yn ôl pob tebyg yn y culdir, yn union i’r gorllewin o’r maes carafanau, mae’n anodd darogan gyda sicrwydd sut fydd yr aber yn datblygu wedyn. Mae sôn bod yr aber yn dal i lenwi gyda gwaddod; mae asesiad hefyd yn Atodiad D. Mae’n edrych yn debygol, gyda llifau heb gael eu gorfodi gymaint i’r dwyrain mwyach, y bydd y sianel yn tueddu i ledu, ac o leiaf yn cynyddu pwysau ar y grwyn terfynol o flaen Pen-yr-ergyd. Mae hefyd yn edrych yn debygol y byddai mwy o symudiad tywod o Dwyni Poppit, fyddai’n cyfrannu at ailsefydlu Tafod Tywod Poppit, i raddau, tu hwnt i’r geg ac i’r aber mewnol. Cysylltiedig â hyn fyddai erydiad ym mhen gogleddol Twyni Poppit. Ni fyddai’r broses hon yn union yr un fath ag y bu yn y gorffennol, am nad oes mwyach y rheolaeth a orfodwyd gan brif bentir Pen-yr-ergyd.

Mae ardal ychwanegol o newid lle mae’r llifau drwy sianel Llandudoch yn mynd i mewn i’r aber mewnol. Fe all newidiadau yng ngheg yr aber mewnol ddylanwadu ar hyn ond, yn y gorffennol, arweiniodd y newidiadau at erydiad ac yna ailgronni o’r morfa heli ar hyd glan Bryn-y-môr. Ymhellach i fyny’r afon, er y gall fod rhywfaint o newid yng ngwely’r afon, mae’r ardal yn gymharol sefydlog.

Dros yr aber i gyd, gyda chynnydd yn lefel y môr fe all fod mwy o fewnlenwi gwaddod yn yr aber mewnol. Bydd pwysau i draethlin Twyni Poppit dreiglo’n ôl ac, yn dibynnu ar allu’r morfa heli i dyfu yn unol â chynnydd yn lefel y môr, fe all fod gwasgu yn erbyn y tir sy’n codi’n gymharol serth o gwmpas ymyl yr aber.

#### CYFRADDAU ERYDIAD MAN CYCHWYN POSIBL


Caiff gwahaniaeth ei wneud rhwng erydiad sylfaenol y draethlin a chiliad clogwyni, sy’n effeithio ar gopa clogwyni a llethrau arfordirol. Mae hyn yn cael ei nodi yn y tabl isod ynghyd ag elfennau perthnasol eraill. Wrth asesu erydiad a chiliad yn y dyfodol, gwnaed lwfans am gynnydd yn lefel y môr a chaiff hyn ei drafod yn Atodiad C. Caiff hyn ei drafod yn fyr hefyd yn dilyn y tabl.

| Lleoliad | Cyfradd Sylfaenol NAI (m/fl) | Nodiadau | Amrediad Erydiad 100 mlynedd (m) |
|---|---|---|---|
| Clogwyni Cemais | 0.05 i 0.1 | Tirlithro lleol | 5 i 10 |
| Castell Penrhyn | 0.1 | | 20 |
| Twyni Poppit | 0.05 i 0.1 | Dibynnol ar ymddygiad yr aber | 10 i 30 |
| Gogledd Llandudoch | 0.05 | Methiant amddiffynfeydd lleol | 10 i 20 |
| De Coronation Drive | 0.05 | Erydiad yn deillio o fethiant yr amddiffynfeydd | 15 |
| Patch | 0.2 | Dibynnol ar ymddygiad yr aber | 50 |
| Gogledd Coronation Drive | 0.2 | Yn amodol ar fethiant yr amddiffynfa a thirlithriad | 60 i 100 |
| Clogwyni Gwbert | 0.05 | Methiant araf y clogwyn | 5 i 10 |
| Mwnt | 0.05 | Y traeth yn treiglo'n ôl a thirlithriad | 50 i 90 |

Aseswyd cyfraddau sylfaenol o ddata arolygu a hanesyddol. Caiff amrediad yr erydiad all ddigwydd ei asesu o ran amrywiad o'r gyfradd sylfaenol a sensitifedd i gynnydd yn lefel y môr. Mae rhagor o fanylion ar gyflymder erydu ynghyd â mapiau erydiad yn Atodiad C.

## LLIFOGYDD

O ran mwy o gynnydd yn lefel y môr byddai perygl llifogydd sylweddol fwy o gwmpas yr aber, perygl llifogydd cynyddol i'r ffordd a'r maes parcio y tu ôl i Dwyni Poppit ond, yn bennaf, o fewn yr aber uchaf yn Aberteifi. Mae hyn yn cael ei ddangos yn y plotiau dilynol o ardaloedd arwyddol mewn perygl o lifogydd Llanw Mawr arferol dan wahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr.




Dan y Senario cynnydd o 1m yn lefel y môr mae perygl llifogydd llanwol rheolaidd (Penllanw Gwanwyn Cymedrig MHWS) i'r ardaloedd ar hyd y Strand, Stryd y Santes Fair ac ardal yr ysbyty. Gallai'r lan o flaen Ffordd yr Orsaf ddioddef llifogydd rheolaidd. Byddai Afon Mwldan mewn mwy o berygl cloi llanwol (pan fo'r gyfundrefn yn methu cael gwared ar lif dŵr croyw mawr yn ystod cyfnodau o lanw uchel, yn codi). Fodd bynnag, ni fyddai arwynebedd sylweddol fwy o lifogydd llanwol. Yn yr un modd byddai mwy o berygl llifogydd yn Stryd Finch oherwydd cloi llanwol.

Yn ogystal, byddai mwy o berygl llifogydd llanwol yn nyffryn yr afon yn Llechryd ond dim eiddo mewn perygl. Fodd bynnag, byddai perygl llawer mwy o'r afon oherwydd cloi llanwol ac mae hon yn ardal lle mae CRhLID eisoes wedi nodi perygl i eiddo.

| Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr |
|---|
| Dan y senario 2m ychydig o gynnydd sydd yn yr arwynebedd dan y sefyllfa MHWS mewn cymhariaeth ag 1m o gynnydd yn lefel y môr. Fodd bynnag, byddai ardaloedd ychwanegol mewn perygl gyda digwyddiad 2m / 200 mlynedd. Mae hyn yn cynyddu perygl llifogydd llanwol tu hwnt i Stryd y Santes Fair, i fyny Afon Mwldan ac yn Llandudoch. |

**AMDDIFFYNFEYDD PRESENNOL**

Oddi allan i Ddyffryn Teifi, dim ond ardaloedd lleol a mân iawn sy'n cael eu hamddiffyn. Yn Abercibwr mae darn cyfyngedig o gaergawell ac, yn y Mwnt, mae rhywfaint o amddiffyniad i'r grisiau mynediad sy'n mynd i lawr y clogwyn. Nid yw effaith yr amddiffynfeydd hyn yn arwyddocaol ar brosesau arfordirol.

Yn Afon Teifi mae morglawdd Cei Bach, sy'n amddiffyn y clogwyn a'r cwt cychod yn yr ardal. Ar ben gogleddol Twyni Poppit mae morglawdd yn amddiffyn y casgliad bach o eiddo sydd, ar hyn o bryd, ymhell y tu ôl i ardal arferol y traeth symudol. Mae amddiffynfeydd lleol i eiddo yn Nhwyni Poppit a mur isel tu cefn i'r morfa heli a Gwesty Webley.

Ar ochr ddwyreiniol yr aber mae rhagfur mawr i ffordd yr arfordir islaw'r llethr arfordirol i'r gogledd o Ben-yr-ergyd trwodd i'r Gwbert. Yn yr aber mewnol mae'r ffordd yn rhedeg ar hyd rhan amddiffynedig Coronation Drive. Yr amddiffynfeydd o gwmpas Pen-yr-ergyd yw grwynau byr ar hyd blaen y maes carafanau gyda chraig arfog yn mewnlenwi rhwng y grwynau. Yng nghefn Pen-yr-ergyd mae amrywiol ddarnau byrion o amddiffynfa i'r twyni ac o flaen y clwb hwylio. Gwaith preifat yw llawer o'r amddiffynfa o gwmpas Pen-yr-ergyd. Rheolwyd traeth Tafod Pen-yr-ergyd yn ddiweddar, gan osod gwaddod a gafwyd o'r tu mewn i'r aber ar hyd y lan.

***Maes Carafanau'r Patch***



Yn Llandudoch, amddiffynnwyd y darn byr ar ben gogleddol y pentref, lle mae'r ffordd yn agos at y draethlin. Yna mae amddiffynfeydd preifat i eiddo'n parhau am 100m arall. Mae amddiffynfeydd i ddwy ochr yr afon trwy Aberteifi. Yn ardal y Netpool, mur cewyll cerrig yw'r amddiffynfa'n bennaf. Gwellwyd hyn yn sylweddol lle mae Afon Mwldan yn ymuno â'r brif afon, gyda mur carreg trwm a stancio. Mae darn o waith preifat, Glanfa Lloyd a Chei Cambria, trwodd i'r mur newydd sy'n gwarchod yr arfordir yng Nghei'r Tywysog Siarl, ac mae cynlluniau i wella'r amddiffynfeydd ar hyd y darn rhwng y ddwy bont. Ar ochr ddeheuol yr afon mae amrywiol furiau ar hyd y rhan fwyaf o'r lan. Mae llawer o'r amddiffynfeydd preifat mewn cyflwr cymedrol i wael gyda bywyd gweddilliol o ryw 10 i 15 mlynedd. Mae amddiffynfeydd mwy ffurfiol yn tueddu i fod mewn gwell cyflwr gyda bywyd yn rhedeg o 25 i 50 mlynedd, o ran amddiffynfeydd newydd. Mewn gwirionedd, byddai disgwyl i amddiffynfeydd fel y rhagfur yn y Gwbert neu'r mur newydd yn Aberteifi barhau am y 75 i 100 mlynedd nesaf.

### SENARIO DIGYFYNGIAD

Dan y senario hwn, caiff ymddygiad yr arfordir ei ystyried fel pe na bai unrhyw amddiffynfeydd o waith dyn, i bob diben fel pe na baent yno mwyach yn ddirybudd. Er bod rhaid cydnabod mai senario hollol ddamcaniaethol yw hwn, mae'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut ydym yn dylanwadu ar ymddygiad yr arfordir ac, felly, y pwysau ac effaith ehangach sy'n cael eu cyflwyno. Mae hyn yn cynorthwyo asesu'n gyntaf sut fyddai'r arfordir eisiau newid, ond hefyd mae'n cynorthwyo diffinio terfynau rhyngweithiad y dylai'r CRhT fod yn eu hystyried.

Ar hyd yr arfordir agored, bydd y draethlin yn dal i erydu'n araf. Dim ond mewn ardaloedd fel Mwnt mae erydiad yn debygol o ennyn methiant mwy sylweddol o'r llethr arfordirol.

Prif ardal newid fyddai, ac a fu, Pen-yr-ergyd. Mae diogelu'r llethr arfordirol ac amddiffyn y maes carafanau a'r briffordd wedyn wedi llwyddo i gyfyngu erydiad i'r glannau hyn. Byddai wedi bod methiant sylweddol o'r llethr arfordirol, a gallai erydiad fod wedi symud wyneb Pen-yr-ergyd yn ôl rhyw 50m. Tra byddai hyn wedi darparu gwaddod ar gyfer datblygiad y tafod, gan beri mwy o erydiad efallai ar ochr Poppit, erbyn hynny, gallai pen mwy soled Pen-yr-ergyd ei hun fod wedi torri trwodd. Byddai hyn wedi gwahanu'r tafod o'r tir mawr ac efallai y byddai traeth wedi datblygu ymhell drosodd i ochr ddwyreiniol yr Aber. Dan y senario hwn mae'n debygol y byddai Twyni Poppit wedi erydu'n helaeth, a datblygu tafod tywod mawr o flaen Gwesty Webley.

Ar hyd Coronation Drive, ni fyddai'r ffordd yn bodoli yn absenoldeb y mur. Byddai'r aber wedi addasu ychydig fel y byddai'r traeth graean ymylol a'r halwyndir wedi symud yn ôl i'r llethr arfordirol sy'n codi tu ôl i'r ffordd.

Ar lan Aberteifi dim ond ffurfioli sianel yr afon a wna'r muriau mewn gwirionedd. Byddai Afon Mwldan yn ffurfio fel isaber bach a byddai ardaloedd y Strand a'r farchnad ar yr ochr ddeheuol yn gorsydd rhynglanwol. Byddai corsydd Pentood hefyd yn gorstir rhynglanwol a throsiannol i dir uwch.

### RHYNGWEITHIAD ALLWEDDOL GYDAG AMDDIFFYNFEYDD

Mae'n amlwg bod ymyriad ar hyd glannau Gwbert a Phen-yr-ergyd wedi cael cryn effaith ar ymddygiad yr aber. Mae presenoldeb yr amddiffynfeydd wedi atal toriad sylweddol o bentir Pen-yr-ergyd ac mae wedi atal y sianel i'r dwyrain rhag ail-leoli'n naturiol. Felly, mae eu dylanwad wedi caniatáu datblygu'r tafod a'i gadw. Ar yr un pryd, trwy atal cyflenwad gwaddod newydd rhag cyrraedd y tafod, maent yn achosi iddo deneuo a, chyn bo hir, byddant yn peri ei ddiwedd.

Yr unig ardal arall lle bu effaith sylweddol yw Pentood, lle mae arglawdd y rheilffordd wedi atal datblygiad naturiol y corstir.

Mewn ardaloedd eraill, dim ond effaith fach sydd gan yr amddiffynfeydd ar brosesau naturiol. Bydd yr amddiffynfeydd lleol o gwmpas yr aber yn tueddu i wasgu mwy ar gynefin ymylol. Gall hyn fod wedi digwydd eisoes i ryw raddau ar hyd Coronation Drive, er y sylwyd y bu twf sylweddol o halwyndir ar sail graean yn Nant-y-ferwig, ar ben deheuol Coronation Drive.

## 3 Senarios Rheoli

3.1 Dim Ymyriad Gweithredol – Senario Man Cychwyn 1.

Bydd yr arfordir agored yn dal i erydu. Prif effaith hyn fydd yn y Mwnt lle gellid disgwyl, oherwydd erydiad y blaendraeth a'r llethr arfordirol yn dal i lithro, y byddai'r ffordd a rhan o'r maes parcio'n cael eu colli, efallai'n dechrau erbyn diwedd y Cyfnod cyntaf. Mewn ardaloedd eraill lle mae traethau graean bach, bydd y cefndraeth yn treiglo'n ôl gyda chynnydd yn lefel y môr.

Dan y senario hwn gall mân waith fethu yn ystod y Cyfnod cyntaf gyda mwy o erydu'r clogwyni yn Nhrwyn Cemais, o fewn yr aber. Mae hyn yn annhebygol o arwain at golli eiddo, ond gallai beri ailysgogi symudiad llethrau arfordirol ymhellach i'r tir.

Ni fyddai fawr ddim effaith ar y rhagfur islaw ffordd yr arfordir i'r Gwbert dros lawer o gyfnod y CRhT. Fodd bynnag, gyda chynnydd yn lefel y môr, byddai mwy o donnau'n torri drosodd a allai ailysgogi'r llethr uwchben. Gall hyn beri difrod i'r rhagfur a byddai, sut bynnag, yn arwain at golli'r ffordd i'r pentref.

| Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr |
|---|
| Gyda chynnydd o 2m yn lefel y môr byddai llawer o donnau'n torri dros y rhagfur hyd yn oed o fewn y 50 mlynedd nesaf. Byddai hyn yn lleihau oes y ffordd. |

Rhaid ystyried cefndraeth yr aber allanol i gyd ac ymddygiad yr aber mewnol fel un. Mae'n edrych yn debygol, hyd yn oed gydag ychwanegu at y tafod yn ddiweddar, y bydd y tafod yn torri yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn peri lledu ceg yr aber mewnol a'r posibilrwydd pendant y bydd y sianel yn tueddu i symud i'r dwyrain. Dros y Cyfnod cyntaf, gall yr amddiffynfeydd ar hyd glannau'r Patch fethu a, gyda'r llif yn canolbwyntio ar ochr hon yr aber, bydd y lan a hyd y lan yn erydu. Gall hyn hefyd gynyddu'r pwysau ar y blaendraeth i erydu o flaen y rhagfur ymhellach i'r gogledd. Wrth i'r cyflenwad gwaddod gynyddu ar ben pellaf y lan, mae posibilrwydd eithaf da y byddai tafod yn datblygu i mewn i'r aber mewnol.

Gyda'r prif lif yn y fynedfa wedi symud i'r dwyrain, mae Tafod Tywod Poppit yn debygol o ddatblygu ymhellach i'r aber, a bydd hyn yn tueddu i gynyddu cyflymder mewnlenwi. I bob diben, byddai'r sianel yn tueddu i lifo trwy'r ardal lle mae'r cyfleuster pysgota ar hyn o bryd ac, o boptu, byddai'r arfordir yn datblygu dau dafod yn wynebu at i mewn. Byddai hyn yn peri canlyniadau i'r angorfeydd a'r fflyd o gychod pysgota. Byddai ardal ogleddol Twyni Poppit yn erydu, a allai amlygu gorsaf RNLI a'r eiddo i'r gogledd.

Gyda chynnydd yn lefel y môr, mae'n ansicr sut fydd Traeth Poppit yn ymateb. Gall wastatáu, efallai'n creu'r amgylchiadau i sianel yr aber ailsefydlu cwrs mwy canolog i'r môr. Fel arall, gall gael ei gyfnerthu ymhellach, efallai'n creu tafod allanol hyd yn oed.

Wrth i lefel y môr gynyddu byddai mwy o'r llanw'n torri dros Coronation Drive ac yn Nant-y-ferwig. Byddai'r mur yn methu, efallai dros yr 20 mlynedd nesaf a byddai mynediad at eiddo, y clwb hwylio ac angorfeydd pysgota'n cael eu colli.

Byddai defnydd a chymeriad yr ardal gyfan yn newid yn sylweddol ac yn arwyddocaol.

Ar ben gogleddol Llandudoch, gyda chynnydd yn lefel y môr a thrwy ddirywiad yr amddiffynfeydd, byddai'r ffordd yn cael ei cholli. Byddai hyn, ynghyd â'r llifogydd

rheolaidd o’r ffordd y tu ôl i Poppit, yn golygu bod mynediad at yr eiddo yn yr ardal hon yn cael ei golli.

Yn Aberteifi byddai’r senario hwn yn arwain at lifogydd sylweddol o rannau pwysig o’r dref ar y glannau, wrth i amddiffynfeydd fethu neu gael eu trechu’n sylweddol. Byddai perygl sylweddol i fywyd ac eiddo. Dan y Senario cynnydd o 1m yn lefel y môr byddai rhyw 77 eiddo mewn perygl llifogydd.

3.2 Gyda Rheoli Presennol – Senario Man Cychwyn 2.

Dengys y tabl isod y polisi cyfredol a’r dull rheoli ar gyfer y Parth.

| Rhif CRhT 1 | Uned Reoli | Polisi | Dull Rheoli Dilynol |
|---|---|---|---|
| **CRhT1 Sir Benfro** | | | |
| 22CHM/B | Traeth Trefdraeth i Abercibwr | DN/DN | |
| 22CHM/A | Abercibwr | DN/DN (SHTL) | |
| 22 TRA | Abercibwr i Drwyn Cemais | DN/DN | |
| 23CHT/B | Trwyn Cemais i Gastell Penrhyn | DN/DN | |
| 23CHT/A | Castell Penrhyn i Orsaf IRB | HTL/HTL | |
| 23POP | Traeth Poppit | | Cynllun Busnes ATLF 2009 |
| 23DOG | Glan Fewnol Gorllewin Aber Afon Teifi | DN/DN | Cynllun Busnes ATLF 2009 |
| 23 EBT | Glan Fewnol Dwyrain Aber Afon Teifi | SHTL/SHTL | Cynllun Busnes ATLF 2009 |
| 23GWBlt | Gwbert | HTL/HTL | Cynllun Busnes ATLF 2009 |
| **CRhT1 Ceredigion** | | | |
| 1.1 | Trwyn Cemais | HTL | |
| 1.2 | Poppit | DN | Cynllun Busnes ATLF 2009 |
| 1.3a | Glan Fewnol De Aber Afon Teifi | DN | Cynllun Busnes ATLF 2009 |
| 1.3b | Glan Fewnol Gogledd Aber Afon Teifi | HTL | Cynllun Busnes ATLF 2009 |
| 1.4 | Gwbert | HTL | Cynllun Busnes ATLF 2009 |
| 2.1 | De Aberteifi | HTL | |
| 2.2 | Gogledd Aberteifi | HTL | |
| 3.1 | Clogwyni Mwnt | DN | |
| 3.2 | Mwnt | DN | |
| 4.1 | Clogwyni Aber-porth | DN | |

**Allwedd: DN – gwneud dim, HTL – Cadw’r Llinell, SHTL – Cadw’r Llinell yn Ddetholus, R – Cilio, gohiriedig – gohiriwyd y polisi yn amodol ar ragor o arolygu neu astudiaeth.**

Yn ogystal, daw’r wybodaeth a’r polisi canlynol o Ddrafft CRhLlD Afonydd Sir Benfro a Cheredigion.

| | |
|---|---|
| **Uned Bolisi 3 Teifi Isaf** | Mae Uned Bolisi Teifi Isaf yn draenio Afon Teifi o Lanbedr Pont Steffan i geg yr afon ym Mae Ceredigion. |
| **Problem / perygl:** | **Problem:**<br>Prif ffynonellau llifogydd yn yr uned bolisi hon yw Afon Teifi a llifogydd afonol dan ddylanwad y llanw. Mae llifogydd dŵr arwyneb a llifogydd o garthffosydd yn cael eu dioddef hefyd yn y prif gylchoedd trefol yn yr uned bolisi hon.<br><br>**Perygl Llifogydd Presennol:**<br>- Aseswyd perygl llifogydd yn yr Uned Bolisi fel isel.<br>- Mae’r perygl llifogydd mwyaf i bobl ac eiddo’n crynhoi yng nghylchoedd trefol Llanybydder, Llandysul ac Aberteifi.<br>- Mae safleoedd amgylcheddol dynodedig (gan gynnwys ACA, SoDdGA a GNG) a safle tirwedd dynodedig (AAS) mewn perygl o lifogydd. Yn |

| | |
|---|---|
| | gyffredinol mae effaith llifogydd o fantais gan fod nifer o safleoedd yn dibynnu ar lifogydd cyfnodol i gynnal amgylchiadau cynefinoedd a rhywogaethau presennol.<br>- Mae rhan fechan (8%) o Ardal Dirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf mewn perygl llifogydd ar hyn o bryd.<br><br>***Perygl Llifogydd yn y Dyfodol:***<br>- Mae disgwyl i berygl llifogydd gynyddu yn yr Uned Bolisi o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Nid oes disgwyl y bydd newid defnydd tir a threfoli'n cael effaith sylweddol yn yr Uned Bolisi hon.<br>- Yn ystod digwyddiad llifogydd 1% AEP yn y dyfodol, mae disgwyl i'r boblogaeth mewn perygl gynyddu 124%; mae disgwyl i nifer yr eiddo preswyl a masnachol mewn perygl llifogydd gynyddu rhyw 118%.<br>- Mae arwynebedd AAS, ACA a SoDdGA sydd mewn perygl llifogydd yn cynyddu i'r dyfodol. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i faint perygl llifogydd yn y safleoedd dynodedig amgylcheddol a thirwedd hyn gynyddu'n sylweddol.<br>- Mae nifer y gwasanaethau ac isadeileddau allweddol sydd mewn perygl llifogydd hefyd yn cynyddu ymhob rhan o'r uned bolisi hon.<br>- Mae'n debygol y bydd dyfnder llifogydd yn cynyddu yn y dyfodol, gyda dyfnder nodweddiadol llifogydd yn ystod digwyddiad llifogydd 1% AEP yn cynyddu bron 1m yn Aberteifi, a rhwng 0.2m a 0.5m yng Nghastellnewydd Emlyn o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. |
| **Polisi a ddewiswyd** | Polisi 4 – Cymryd camau pellach i gynnal y lefel bresennol o berygl llifogydd i'r dyfodol. |
| **Cyfiawnhad a pholisïau eraill a ystyriwyd** | Polisi 4 – Byddai'r dewis hwn yn rhoi'r cyfle i barhau mesurau rheoli perygl llifogydd presennol a/neu weithredu rhai newydd er mwyn cadw'r perygl fel y mae yn yr uned bolisi hon i'r dyfodol. Mae'r polisi hwn yn briodol oherwydd bod y perygl llifogydd yn yr uned bolisi hon ar hyn o bryd yn isel ond bod disgwyl iddo gynyddu yn y dyfodol. Mae mwy o lif brig i lawr Afon Teifi, gan beri mwy o ddyfnder a chwmpas ochrol llifddwr, yn fwy o berygl i fywyd ac yn cynyddu'r amhariad ar y gymuned ac isadeiledd hollbwysig.<br><br>Mae safon gyfredol yr amddiffyniad sy'n cael ei gynnig gan yr amddiffynfeydd presennol yn debygol o leihau gyda newid yn yr hinsawdd ac mae disgwyl i gyfartaledd iawndal blynyddol yn Nheifi Isaf ddyblu bron, o £300,000 i £570,000 (cynnydd o 90%). Yn ogystal ag eiddo, bydd y cynnydd yn amlinell ochrol llifogydd yn peri cynnydd mewn llifogydd o Ardal Dirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf a SoDdGA niferus, all gael effaith andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau presennol sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Mae modd cyflawni holl amcanion y dalgylch trwy ddefnyddio'r polisi hwn.<br><br>Byddai Polisi 4 yn caniatáu sefydlu mesurau pellach mewn ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn ddiamddiffyn ond a all fod mewn mwy o berygl llifogydd yn y dyfodol. Byddai hyn yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a threfoli ac yn cynnal yr amddiffyniad presennol drwy adran gyfan yr Uned Bolisi i'r dyfodol.<br><br>Rydym wedi dewis y polisi hwn ar sail y perygl oddi wrth ffynonellau llifogydd mewndirol a ffynonellau llifogydd llanwol. Pe bai peryglon llifogydd llanwol yn cael eu tynnu o broses werthuso polisïau, mae amcangyfrifon dechreuol yn awgrymu y byddai'r polisi hwn yn newid o Bolisi 4 i Bolisi 3.<br><br>**Dewisiadau polisi eraill a ystyriwyd:**<br>Polisi 1 – Bydd dewis Polisi 1 yn cynyddu'r perygl i bobl, eiddo a'r amgylchedd yn sylweddol. Yn dilyn gostyngiad mewn mesurau rheoli perygl |

| | |
|---|---|
| | llifogydd, byddai difrod i eiddo preswyl a masnachol yn cynyddu'n sylweddol, gan beri costau Cyfartaledd Difrod Blynyddol llawer uwch a chryn amharu ar gymunedau lleol ac isadeiledd hanfodol. Heb gynnal cyfundrefnau rhybuddio rhag llifogydd ac amddiffynfeydd yn erbyn amlder llifogydd cynyddol, dyfnder a chwmpas ochrol llifddwr, byddai'r perygl i fywyd yn cynyddu'n sylweddol. Ni fyddai'r dewis polisi hwn yn cyflawni unrhyw un o amcanion y dalgylch chwaith.<br><br>Polisi 2 – Bydd dewis Polisi 2 hefyd yn cynyddu'r perygl i bobl, eiddo a'r amgylchedd i lefel na fyddai'n ymarferol i'r Uned Bolisi hon. Byddai effeithiau tebyg yn cael eu gweld wrth ddefnyddio Polisi 2 â'r rhai wrth ddefnyddio senario Polisi 1; mae gofyn i fesurau rheoli perygl llifogydd leihau'r perygl disgwyliedig yn y dyfodol i lawr i'r lefel dderbyniol bresennol, lle mae modd cyflawni amcanion y dalgylch dan yr amgylchiadau presennol.<br><br>Polisi 3 – Byddai dewis Polisi 3 yn peri cynnydd yn amlder a dyfnder llifogydd yn y dyfodol. Byddai trigolion a busnesau Llanybydder, Llandysul ac Aberteifi'n cael eu heffeithio trwy gynnydd mewn amhariad ar isadeiledd, straen gymdeithasol a cholled economaidd. Er y byddai modd ystyried Polisi 3 fel dewis, mae disgwyl i gyfartaledd iawndal blynyddol ddyblu bron (o £300,000 i £570,000) os yw lefelau presennol gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ond yn cael eu cynnal fel y maent ar hyn o bryd. Mae dewis Polisi 4 yn caniatáu lleihau'r ffigur hwn yn y dyfodol os oes modd cadw maint y perygl, yn hytrach na gadael iddo gynyddu dan Bolisi 3. Ni fyddai'r polisi hwn chwaith yn cyflawni holl amcanion y dalgylch.<br><br>Polisi 5 – Byddai dewis Polisi 5 yn peri lleihau'r perygl presennol yn y dyfodol. Oherwydd mai'r farn yw bod y perygl presennol yn isel, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros fuddsoddi mewn mesurau rheoli perygl llifogydd ychwanegol i leihau mwy ar berygl llifogydd.<br><br>Polisi 6 – Nid yw Polisi 6 yn ymarferol ar gyfer yr Uned Bolisi hon. Nid oes rhagor o le i ddal llifogydd trwy gynllun gwanhau nac ar gyfer llifogydd amlach yn yr Uned Bolisi hon, heb gael effeithiau andwyol ar ddynodiadau amgylcheddol a thirwedd. Mae cyfleoedd i weithio gyda pherchenogion a rheolwyr tir i reoli dŵr ffo o'r tir yn well. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd ond ar raddfa leol ac ni fydd yn cael effaith arwyddocaol ar gadw dŵr a lleihau perygl llifogydd ar raddfa'r dalgylch. |
| **Cyfleoedd a chyfyngiadau ar gyfer y dalgylch i gyd** | **Cyfleoedd:**<br>Lleihau perygl llifogydd yn y dyfodol trwy ysbrydoli a dylanwadu ar y broses gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd arfaethedig yn Aberteifi, Llandysul ac anheddau eraill llai yn yr uned bolisi hon, er mwyn atal rhag caniatáu defnydd tir amhriodol yn y gorlifdir a thrwy ddefnyddio SuDS yn briodol.<br><br>Cynorthwyo cyrraedd targedau'r cynllun cenedlaethol gweithredu ar fioamrywiaeth (BAP), BAP Lleol Ceredigion a BAP Lleol Sir Gâr trwy weithgareddau rheoli perygl llifogydd.<br><br>Lleihau goferiad dŵr arwyneb a cholled gwaddod yn nalgylchoedd uchaf isafonydd Teifi Isaf, Bedw a Chletwr, a chadw dŵr yn well yn y dalgylchoedd isaf trwy gymhwyso arweiniadau amgylcheddol a rheoli tir fel Tir Cynnal, Tir Gofal a Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon i'r gweithgareddau ffermio |

| | |
|---|---|
| | gwartheg godro yn yr uned bolisi hon.<br><br>Lleihau perygl llifogydd i Aberteifi, Llechryd, Castellnewydd Emlyn, Llandysul a Llanybydder trwy rybuddio'n well rhag llifogydd ac ymateb brys.<br><br>**Cyfyngiadau:**<br>Anheddau gwasgaredig, llai heb lawer o gyfle na chyfiawnhad dros amddiffynfeydd unigol, fel Llechryd. Gyda'i gilydd, fodd bynnag, mae'r anheddau gwasgaredig hyn yn dod i nifer cymharol fawr o eiddo mewn perygl llifogydd.<br><br>Presenoldeb rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig gyda gofynion penodol o ran lefel y dŵr, ansawdd dŵr a chynefin, fel dyfrgwn a chrafanc y dŵr yn yr uned bolisi hon. Rhaid gwarchod y rhain, ac nid yn unig y byddant yn cyfyngu ar weithgareddau arbennig, gallant fod angen gweithgareddau a gweithrediadau penodol ychwanegol i sicrhau eu bod yn dal i gael eu gwarchod.<br><br>Mae amwynderau twristiaeth, hamdden ac adloniant yn hanfodol i economi'r ardal. Rhaid rheoli perygl llifogydd yn ystyriol o'r nodweddion a thirwedd y mae'r gweithgareddau hyn yn dibynnu arnynt, wrth sicrhau hefyd bod rheoli perygl llifogydd yn ystyried y perygl ychwanegol y mae ymwelwyr â'r ardal yn ei greu. Er enghraifft, fe all dŵr mawr effeithio ar safleoedd pysgota eogiaid ar Afon Teifi, ac mae'r cwrs caiacio yn Llandysul yn dibynnu ar y llif, uchel o ddewis, ar gyfer y gweithgaredd adloniadol hwn. |

Ar y cyfan mae Gyda Rheoli Presennol yn ceisio cynnal maint yr amddiffynfa yn Aberteifi a rheoli amrywiol ardaloedd yn aber mewnol ac allanol Afon Teifi, ond gyda pholisi o Ddim Ymyriad Gweithredol ar yr arfordir agored.

Mae goblygiadau rheoli presennol yn cael eu trafod isod, yn enwedig mewn perthynas â'r ansicrwydd cysylltiedig ag ymddygiad yr aber a'r perygl llifogydd cynyddol yn Aberteifi gyda chynnydd yn lefel y môr.

Dan y senario hwn y nod fyddai Cadw'r Llinell i'r de o Gastell Penrhyn trwodd i'r Orsaf RNLI. Byddai hyn yn golygu buddsoddiad sylweddol yn y dyfodol yn y lanfa bresennol a'r amddiffynfeydd lleol yn ogystal â gwaith i amddiffyn troed y clogwyn, yn ôl pob tebyg. Byddai hyn yn effeithio ar y diddordeb gwarchod natur yn ogystal â phosibilrwydd lleihau'r ffynhonnell waddod bwysig i'r aber. I'r de o Drwyn Carreg Ddu, byddai'r ymdrech cysylltiedig â gwarchod yr eiddo a'r Orsaf RNLI yn dibynnu ar reoli ceg yr aber. Yn bendant, gallai cadw'r llinell yn yr ardal hon yn y dyfodol ofyn amddiffyniad at linell y twyni a gallai hyn, gyda chynnydd yn lefel y môr, ddechrau effeithio'n sylweddol ar ymddygiad y lan, gyda'r bwriad o reoli hyn i'r dyfodol.

Ar ochr Gwbert, caiff amddiffyn y ffordd ei ystyried yn ymarferol trwy gynnal y rhagfur presennol. Byddai angen gwneud hyn mewn ffordd fyddai'n cynnal swyddogaeth naturiol gymharol y llethr arfordirol. Byddai'r angen am yr amddiffynfa hon yn dibynnu'n fawr ar y polisi ar gyfer y ffordd tua'r de ar hyd Coronation Drive. Dan y senario hwn, y polisi fyddai Cadw'r Llinell ac, felly, byddai'r mynediad i'r Gwbert yn cael ei gadw a byddai'r angen i amddiffyn y ffordd ymhellach i'r gogledd yn aros hefyd. Byddai'n dechnegol ymarferol cadw'r llinell ar hyd Coronation Drive, hyd yn oed dan Senario cynnydd o 2m yn lefel y môr. Byddai'n gofyn rhagor o waith i gryfhau mur y ffordd a byddai angen cynyddu uchder yr amddiffynfa yn erbyn digwyddiadau llifogydd mwy eithafol. Gallai hyn

achosi mwy o wasgu gan arwain at golli cynefin rhynglanwol a allai effeithio ar yr ACA. Byddai cynnal y ffordd yn rhoi cyfle i gadw cludiant y diwydiant pysgota yn ogystal â chadw mynediad at eiddo.

Trafodwyd cryn dipyn ar reoli glannau Pen-yr-ergyd a Poppit yn CRhT1 ar gyfer yr ardal. Y bwriad oedd dal i reoli glannau Patch ac efallai reoli'r tafod, ond yna ganiatáu agwedd fwy naturiol at ochr Poppit yr aber. Ystyriwyd nad oedd cynnydd yn lefel y môr yn gymaint o broblem oherwydd bod rheoli'n cael ei ystyried dros gyfnod o 50 mlynedd yn unig. Os rhywbeth, daeth y sefyllfa'n fwy ansicr, oherwydd y bu newidiadau sylweddol eto yn natblygiad y tafod dros y degawd diwethaf, ac oherwydd ei bod bellach yn angenrheidiol ystyried sut fyddai angen gweithredu polisi Cadw'r Llinell yn wyneb cynnydd yn lefel y môr a allai fod gymaint â 2m.




Yn rhannol, dirprwywyd cyfrifoldebau rheoli i lefel fwy lleol trwy'r Pwyllgor Sianelau Mordwyo, ond gyda chyfranogiad yr ymgyngoreion statudol a goruchwyliaeth at ei gilydd y ddau gyngor ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Caiff hyn ei weld fel cam cadarnhaol iawn trwy fod llawer o'r materion yn gymunedol. Fodd bynnag, mae modd gweld cymhlethdod rheoli a'r ansicrwydd cynyddol ar sut mae modd cymhwyso polisi Cadw'r Llinell yng ngheg yr aber o Gynllun Busnes Afon Teifi Fairways Ltd (2009); mae'r agwedd at reolaeth yn dal yn ansicr iawn. Y prif gasgliad a dynnwyd o'r Cynllun yw'r bwriad i reoli'r tafod trwy ddal i ychwanegu ato, gan ddefnyddio deunydd a garthwyd. Caiff hyn ei gydnabod fel gorsymleiddiad o fwriad rheoli yn y dyfodol ond caiff ei gymryd fel y senario man cychwyn o ran edrych ar oblygiadau all fod.

Gyda'r agwedd hon a than y polisi hwn, y nod fyddai adnewyddu'r tafod gyda gwaddod angenrheidiol, i gynnal ei sefyllfa bresennol. Gall hyn fod yn ymarferol dros y degawd nesaf er y byddai'n gofyn mwy a mwy o ymdrech i gael y canlyniad angenrheidiol. Byddai angen cynyddu graddfa'r gwaith gyda chynnydd yn lefel y môr, gan ganiatáu cynyddu mwy ar uchder y tafod i atal gorolchi. Cysylltiedig â hyn fyddai'r angen i galedu amddiffynfa'r tafod wrth i bwysau erydiad gynyddu.

Ychydig o gyflenwad gwaddod sydd i'r lan hon i gyd. Mae'r grwynau craig byrion o flaen y maes carafanau wedi caniatáu dal gafael ar rywfaint o raean ac mae hyn yn cynnal troed y rhagfur craig a godwyd rhwng y grwynau. Serch hynny, cyfyngedig yw'r gwaddod sy'n cael ei ddal yn yr ardal hon.

Gyda chynnydd yn lefel y môr, byddai llai o raean yn cael ei gadw a, hyd yn oed gydag ailgyflenwi'r tafod, byddai mwy o bwysau ar y darn cyfan o draethlin i gilio. Ar yr un pryd, er mwyn dal i ddefnyddio rhes flaen y lleiniau ym Maes Carafanau Patch yn yr hirdymor, byddai angen codi lefelau'r tir ar hyd y lan fwyaf agored i osgoi llifogydd rheolaidd dan lanwau arferol. Yna byddai angen rhagor o waith i warchod rhag y digwyddiad 1:10 mlynedd hyd yn oed.

Effaith gwahanol Senarios Cynnydd yn Lefel y Môr

Gyda'r senario cynnydd o 2m yn lefel y môr, byddai angen cynyddu uchder y tafod dros 1m o fewn y 50 mlynedd nesaf a thros 2m dros y cyfnod 100 mlynedd.

I bob diben, byddai'r agwedd ar hyn o bryd at gadw'r llinell yn gofyn cau'n llawn am lan y Patch i gyd a chynnal y tafod fel nodwedd hollol wneud yn y dyfodol. Ni fyddai mabwysiadu hyn fel dull rheoli ac yna seilio rheolaeth holl faterion eraill cysylltiedig â defnyddio'r aber yn y dyfodol ar hynny'n cael ei ystyried yn rhesymol nac yn gynaliadwy (rhaid derbyn bod Cynllun Busnes ATFL yn cydnabod hyn a bod y senario man cychwyn uchod yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl i roi llinell sylfaen i drafodaeth bellach yn y CRhT).

Mewn egwyddor, byddai'r agwedd uchod yn cynnal y sefyllfa gyffredinol bresennol mewn perthynas â Poppit, ond byddai'n arwain at sefyllfa fyddai'n fwyfwy agored i newid sydyn ym mholisi'r dyfodol. Byddai perygl llifogydd cynyddol yn dal i fod y tu ôl i Dwyni Poppit a, than y senario hwn, byddai hyn yn cael ei dderbyn fel rhan o ddefnydd yr ardal.

Byddai'r darn byr o amddiffynfa i'r ffordd ym mhen gogleddol Llandudoch yn dal i gael ei amddiffyn fel rhan o'r polisi cyffredinol Cadw'r Llinell ar ochr orllewinol yr aber uchaf. Byddai hyn yn cynnal y mynediad drwodd i Poppit.

Y polisi yn Aberteifi fyddai Cadw'r Llinell ar ddwy ochr yr afon. Yn dechnegol, caiff ei ystyried bod y polisi hwn yn gynaliadwy, hyd yn oed gyda mwy o gynnydd yn lefel y môr. Nodwyd bod ardaloedd y glannau yn Aberteifi'n agweddau pwysig ar ddatblygiad y dref. Ar waethaf yr ymarferoldeb technegol hwn, mae talu am waith o'r fath yn debygol o fod angen cydgyllido ar ben unrhyw gymorth grant. Y mater allweddol fyddai pa mor agored fyddai eiddo y tu ôl i'r amddiffynfeydd mewn ardaloedd fel y Strand a'r Farchnad, ar y lan ddeheuol. Mae'r cylchoedd hyn yn ddigon isel fel y byddai llawer mwy o berygl cloi llanwol ac y byddai digwyddiadau eithafol iawn yn achosi mwy o berygl fyth i fywyd.

## 4 Cymhariaeth ac Asesiad Cryno o Senarios man cychwyn.

Mae Tabl 1 yn cymharu'r iawndal economaidd a allai fod dan y ddau senario man cychwyn. Mae Tabl 2 yn rhoi cymhariaeth gryno o ran yr amcanion cyflawn seiliedig ar y materion allweddol a nodwyd yn y cyflwyniad i'r ardal arfordirol hon.

Caiff iawndal erydiad a'r rhai cysylltiedig â llifogydd eu nodi ar wahân yn Nhabl 1. Nod y tabl hwn yw dangos y difrod economaidd a allai godi oherwydd llifogydd neu erydiad. Fel y cyfryw, nid yw eiddo a allai gael ei golli yn y dyfodol oherwydd erydiad yn cael eu hepgor wrth asesu llifogydd. Yn yr un modd, eiddo a allai fod wedi colli ei holl werth oherwydd difrod llifogydd rheolaidd yn dal i gael ei gynnwys wrth asesu erydiad. Mae'n amlwg nad yw agwedd o'r fath yn cyd-fynd yn hollol ag arfarniad economaidd arferol ar lefel strategaeth neu gynllun. Fodd bynnag, mae'n cael ei ystyried yn briodol ar lefel uwch asesiad y CRhT gyda'i nod hanfodol o nodi lle all fod ffurfiau gwahanol ar berygl wrth asesu gwahanol senarios. Os oes teimlad bod hyn yn ystumio'r asesiad economaidd yn anghymesur yna caiff hyn ei nodi yn Atodiad H a'r achos economaidd yn cael ei addasu o ganlyniad.

Caiff yr asesiad o ddifrod economaidd ei wneud trwy ddefnyddio Fframwaith Cynnal Modelu a Phenderfynu (MDSF) symlach. Yn achos erydiad, mae'r offeryn hwn seiliedig ar GIS yn cymryd y pellter erydiad disgwyliedig ar gyfer unrhyw ddarn o'r arfordir ar sail asesiad o'r erydiad erbyn diwedd pob cyfnod. Yna mae'n cael ei gymryd y byddai cyflymder erydu llinellol rhwng y llinellau amser hyn (e.e. byddai disgwyl i eiddo sy'n sefyll hanner ffordd rhwng llinell amser cyfnod 1 (20 mlynedd) a llinell amser cyfnod 2 (50 mlynedd) gael ei golli ymhen 35 mlynedd). Caiff pob eiddo ei ddiffinio fel pwynt unigol yn hytrach nag yn ôl ei ôl troed llawn. Ni chaiff colli mynediad neu wasanaethau ei gyfrif yn yr asesiad, er bod hyn yn cael ei drafod yn y testun pan fo'n allweddol. Yna mae'r dull MDSF yn tynnu gwybodaeth o gronfa ddata eiddo, gan roi gwybodaeth gyffredinol mewn perthynas â'r eiddo hwnnw. Caiff gwerth yr eiddo ei ostwng o ran pryd all yr eiddo hwnnw gael ei golli.

Yn achos llifogydd, caiff lefelau dŵr arfordir agored eu hasesu gyferbyn â lefelau trothwy cysylltiedig ag eiddo unigol seiliedig eto ar y gronfa ddata ffynhonnell bwynt eiddo. Ni wnaed unrhyw fodelu manwl i asesu llwybrau llifo a/neu gynnydd posibl mewn lefelau dŵr oherwydd prosesau aberol. Pan fo amddiffynfa rhag llifogydd yn methu neu'n cael ei threchu, mae'n cael ei gymryd bod yr ardal lifogydd i gyd y tu ôl i'r amddiffynfa'n agored i lifogydd ac y byddai llifogydd yn digwydd ar hyd a lled y gorlifdir, dros gyfnod penllanw unigol. Caiff iawndal ei asesu mewn perthynas â dyfnder llifogydd fyddai'n digwydd ar sail y math o eiddo a nodwyd yn y gronfa ddata. O'r asesiad hwn o ddifrod llifogydd all ddigwydd gydag unrhyw lefel dŵr penodol, caiff cyfartaledd blynyddol iawndal llifogydd ei benderfynu yn ystod pob cyfnod. Caiff cyfartaledd blynyddol gwerth difrod ei gymryd rhwng y presennol (2010) ac ymhen 50 mlynedd (2060) a rhwng 2060 a 2110. Caiff y gwerth cyfartalog hwn ei gymryd wrth benderfynu amcangyfrif o Werth Presennol (PV) Iawndal gostyngol dros gyfnod y CRhT. Mae'r agwedd syml hon yn caniatáu ystyried perygl llifogydd dan wahanol ragfynegiadau cynnydd yn lefel y môr ar gyfer gwahanol senarios.

## Tabl 1. Asesiad Economaidd

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o iawndal erydiad a bennwyd gan ddadansoddiad MDSF CRhT2 ar gyfer y PDZ cyfan. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad H. Pan fo astudiaethau'n darparu gwybodaeth fanylach, mae hyn yn cael ei nodi. Bwriad y tabl yw rhoi asesiad lefel uchel dechreuol o iawndal all godi dan y ddau senario man cychwyn.

### ASESIAD O IAWNDAL ERYDIAD

| Cyfnod | 0 – 20 mlynedd | | | 20 – 50 mlynedd | | | 50 – 100 mlynedd | | | 50 – 100 mlynedd (2m o gynnydd yn lefel y môr) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dim Ymyriad Gweithredol** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
| *Location* | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | |
| Poppit Dunes | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 197 | 1 | 0 | 37 |
| Cardigan North | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 128 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 56 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ1** | **93** |
| **Gyda Rheoli Presennol** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo:** | | **Gwerth x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
| *Lleoliad* | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | | *Pres.* | *Masn.* | |
| Poppit Dunes | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 197 | 1 | 0 | 37 |
| Cardigan North | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ1** | **37** |
| Nodiadau: Pennwyd gwerth presennol iawndal ar gyfer 1m o gynnydd yn lefel y môr mewn 100 mlynedd. | | | | | | | | | | | | |
| Gwybodaeth arall: | | | | | | | | | | | | |

Pennwyd yr iawndal llifogydd canlynol trwy ddefnyddio MDSF. Amcan y ffigurau hyn yw nodi maint ac effaith perygl llifogydd yn hytrach na bod yn arfarniad economaidd manwl. Mewn llawer o ardaloedd byddai niferoedd sylweddol o eiddo'n agored i lifogydd gyda'r digwyddiadau amlach dan Dim Ymyriad Gweithredol a Gyda Rheoli Presennol, caniatawyd gwerth enwol colled ulw yn y tabl ar gyfer eiddo mewn perygl aml; nid yw hyn yn gyffredinol yn cynnwys gwerthoedd mewn perygl ar hyn o bryd ar gyfer y digwyddiad 1:1 flwyddyn, ymhen 50 mlynedd ar gyfer y digwyddiad 1:10 mlynedd ac ymhen 100 mlynedd ar gyfer y digwyddiad 1:50 mlynedd.

### ASESIAD O BERYGL LLIFOGYDD

| | **Perygl llifogydd llanwol 2010** | | | **Perygl llifogydd llanwol 2060** | | | **Perygl llifogydd llanwol 2110** | | | **perygl llanwol 2m o gynnydd yn lefel y môr** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dim Ymyriad Gweithredol** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD** | **Nifer yr eiddo** | | |
| *Location* | <1:10 ml. | >1:10 ml. | **x £k** | <1:10 ml. | >1:10 ml. | **x £k** | <1:10 ml. | >1:10 ml. | **x £k** | <1:10 ml. | >1:10 ml. | |
| Traeth Poppit | 2 | 0 | 8 | 2 | 2 | 88 | 2 | 0 | 106 | 2 | 0 | 1246 |
| Llandudoch | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| Penybont | 3 | 5 | 10 | 3 | 7 | 19 | 9 | 10 | 225 | 19 | 9 | 1040 |
| Dwyrain Aberteifi | 25 | 17 | 22 | 25 | 30 | 190 | 25 | 52 | 157 | 81 | 12 | 2533 |
| Gorllewin Aberteifi | 6 | 0 | 39 | 6 | 2 | 298 | 6 | 6 | 127 | 19 | 1 | 3700 |
| Pen-yr-ergyd | 0 | 1 | 0.33 | 1 | 0 | 3 | 1 | 0 | 14 | 1 | 1 | 75 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ5** | 8593 |

| **Gyda Rheoli Presennol** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **AAD x £k** | **Nifer yr eiddo** | | **Gwerth Presennol Iawndal (£x1000)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Lleoliad* | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | | <1:10 ml. | >1:10 ml. | |
| Traeth Poppit | 0 | 2 | 8 | 1 | 1 | 88 | 2 | 0 | 76 | 2 | 4 | 1154 |
| Llandudoch | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 |
| Penybont | 0 | 8 | 3 | 0 | 10 | 5 | 0 | 19 | 11 | 0 | 28 | 137 |
| Dwyrain Aberteifi | 0 | 42 | 6 | 0 | 55 | 10 | 0 | 77 | 18 | 0 | 93 | 251 |
| Gorllewin Aberteifi | 0 | 6 | 7 | 0 | 8 | 10 | 0 | 12 | 13 | 0 | 20 | 75 |
| Pen-yr-ergyd | 0 | 1 | 0.33 | 1 | 0 | 3 | 1 | 0 | 14 | 1 | 1 | 75 |
| | | | | | | | | | | | **Cyfanswm PDZ5** | 1870 |

## Tabl 2. Asesiad Cyffredinol o Amcanion

Mae'r tabl canlynol yn rhoi asesiad at ei gilydd o sut mae'r ddau senario man cychwyn yn effeithio ar yr amcanion cyflawn. Caiff amcanion penodol eu cyflwyno'n fanylach yn Atodiad E. Bwriad y tabl yw rhoi asesiad lefel uchel dechreuol o'r ddau senario man cychwyn, gan dynnu sylw at bynciau llosg all godi. Caiff y materion hyn eu trafod yn yr adran ganlynol, gan edrych ar wahanol senarios rheoli y bydd polisi CRhT2 yn deillio ohonynt wedyn.

| AMCAN RHANDDEILIAD | NAI | | | WPM | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Methu | Diduedd | Derbyniol | Methu | Diduedd | Derbyniol |
| Lleihau perygl i fywyd. | ● | | | | ● | |
| Amddiffyn eiddo rhag colled trwy lifogydd ac erydiad. | ● | | | | | ● |
| Lleihau cymaint â phosibl yr angen i gynyddu ymdrech a rheoli amddiffynfeydd arfordirol. | | | ● | ● | | |
| Osgoi dibynnu ar amddiffyniad yn enwedig lle mae perygl methiant trychinebus. | | | ● | ● | | |
| Cynnal mynediad i'r cymunedau a phentrefi. | ● | | | | | ● |
| Cynnal defnydd adloniadol o'r traethau a'r baeau. | | | ● | | | ● |
| Cynnal mynediad at yr arfordir gan gynnwys parcio ar gyfer ceir a chyfleusterau. | ● | | | | | ● |
| Cynnal mynediad ar gyfer defnyddio cychod a gweithgaredd chwaraeon dŵr cysylltiedig. | ● | | | | ● | |
| Cynnal mordwyo a gorsaf RNLI ar Afon Teifi. | ● | | | | ● | |
| Cynnal canolfan fasnachol, gymdeithasol a diwylliannol bwysig Aberteifi. | ● | | | | | ● |
| Cynnal y cyfleoedd i ddatblygu glannau Aberteifi. | ● | | | | | ● |
| Cynnal cymeriad a chyfanrwydd cymunedau arfordirol. | ● | | | | ● | |
| Cynnal y diwydiannau pysgota masnachol yn arbennig yn Afon Teifi. | ● | | | | ● | |
| Cynnal cymunedau amaethyddol. | | ● | | | ● | |
| Nodi perygl a lleihau perygl colli nodweddion treftadaeth lle bo modd. | | ● | | | | ● |
| Cynnal tirwedd hanesyddol. | ● | | | | | ● |
| Atal dirywiad neu darfu ar safleoedd hanesyddol a'u hamgylchedd. | ● | | | | ● | |
| Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig rhyngwladol (ACA, AGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig. | | | ● | ● | | |
| Cynnal neu wella cyflwr neu gyfanrwydd y safleoedd dynodedig cenedlaethol (SoDdGA) a nodweddion diddordeb yng nghyd-destun cyfundrefn arfordirol ddynamig. | | | ● | ● | | |
| Cynnal a gwella dealltwriaeth addysgol a gwyddonol o ddaeareg a geomorffoleg. | | | ● | | | ● |

| AMCAN RHANDDEILIAD | NAI | | | WPM | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Methu | Diduedd | Derbyniol | Methu | Diduedd | Derbyniol |
| Osgoi difrodi'r dirwedd naturiol a'i gwella. | | | | | | |
| Cynnal y dirwedd ddynol a chymeriad cymunedau. | | | | | | |
| Cynnal y llwybr cludiant rhwng Abergwaun ac Aberteifi a'r porth i Orllewin Cymru. | | | | | | |

## 5 Trafodaeth a Datblygu Polisi Manwl

Ar yr arfordir agored mae'r polisi dan y ddau senario man cychwyn yr un fath, sef Dim Ymyriad Gweithredol. Byddai rhywfaint o berygl i'r mynediad a defnydd yn y Mwnt ond, heb waith sylweddol iawn i sefydlogi'r llethr arfordirol, ni fyddai modd osgoi hyn. Y polisi yn y Mwnt ddylai fod Dim Ymyriad Gweithredol ond cydnabod yr angen i reoli'r materion defnydd tir o ganlyniad.

Ymyriad parhaus oedd y polisi ar y lan o Drwyn Cemais trwy Gei-bach i Drwyn Carreg Ddu. Tu hwnt i gefnogi bwriad i reoli'r lanfa a'r cwt cychod, mae'n edrych yn annhebygol y byddai cyfiawnhad dros wneud unrhyw waith sylweddol i reoli traethlin yr ardal. Yn y pen draw, fe allai fod materion cysylltiedig ag ansadrwydd tir, yn cael ei waethygu oherwydd erydu'r clogwyn, er nad oes unrhyw dystiolaeth gofnodedig o hynny ar hyn o bryd. Serch hynny, byddai'n groes i amcanion cadw'r gwerthoedd pwysig gwarchod natur i wneud unrhyw waith sylweddol i atal hyn. Felly, mae'r polisi ar gyfer y lan yn newid i un o Ddim Ymyriad Gweithredol. Ni fyddai hyn yn rhwystro gwneud gwaith penodol i gynnal y lanfa a'r cwt cychod yn amodol ar ganiatâd arferol.

Mae Cynllun Busnes Afon Teifi Fairways Ltd (ATFL), yn tynnu sylw at gymhlethdod rheoli ceg yr aber mewnol. Wrth asesu'r dull rheoli o wneud dim ond ychwanegu at y tafod gyda charthion, mae'n dangos bod hyn yn anghynaliadwy a byddai angen gwaith cysylltiedig sylweddol i amddiffyn glan maes carafanau Patch. Caiff hyn ei ystyried fel effeithio'n sylweddol ar ddefnydd a thirwedd yr ardal ac mae'n debygol o arwain at golli'r union fuddiannau y seiliwyd y maes carafanau arnynt. Nid yw polisi Cadw'r Llinell ar gyfer Pen-yr-ergyd, yn unig trwy gynyddu'r amddiffynfeydd presennol, yn cael ei ystyried yn ddewisol nac yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Byddai'r un peth yn berthnasol i lan Twyni Poppit a'r ardal o amgylch Gorsaf RNLI a'r eiddo i'r gogledd. Nid yw hyn yn bychanu gwerthoedd pwysig cymuned Poppit, pwysigrwydd Gorsaf RNLI a'r gweithgareddau pysgota, hwylio ac adloniadol yn y cylch na chyfraniad pwysig Maes Carafanau Patch i'r economi lleol. Caiff y rhain eu nodi gan ATFL a thrwy ymgynghori fel bod yn nodweddion hanfodol yr ardal. Mae cyfranogiad y gymuned yn cael ei ystyried yr un mor bwysig fel cam cyntaf tuag at gynllun cyfun angenrheidiol at reoli'r ardal, ochr yn ochr â rheoli'r diddordeb hanesyddol a gwarchod natur. Caiff yr ardal hon ei gweld hefyd fel rhan bwysig o werth economaidd yr ardal gyfan o ran cynllunio gofodol mewn perthynas â chynnal atyniad a ffyniant economaidd Aberteifi.

Fodd bynnag, nid yw'r arferion rheoli presennol yng ngheg yr aber yn llawer mwy nag ymateb adweithiol i sefyllfa ddynamig dros ben ar hyn o bryd. Mae parhau agwedd o'r fath yn fwyaf tebygol o arwain at bolisi o Ddim Ymyriad Gweithredol wrth i'r amrywiol ddefnyddiau a buddiannau yn y cylch ddod yn anghynaliadwy fesul un. Hyd yn oed gyda'r arfer arfaethedig o ychwanegu at y tafod, bydd y tafod yn torri; yn eithaf tebygol dros y degawd nesaf. Bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i ymateb i hyn a gallai hynny fod ar sail amddiffynfa linol galetach a mwy o garthu i ddechrau. Fodd bynnag, wrth i bwysau gynyddu o ganlyniad i hyn, mae'n annhebygol y byddai ymateb o'r fath mewn ffordd ddigynllun yn gynaliadwy, naill ai o ran gwaith adeileddol nac o ran defnydd.

Caiff ei ystyried yn amhriodol i'r CRhT ddiffinio'r agwedd fanwl at reoli, fel mae angen i hyn fod yn destun dadansoddiad manylach o'r ardal. Fodd bynnag, y teimlad yw ei bod yn briodol newid y safbwynt yn sylweddol o'r hyn oedd yn CRhT1, i ddiffinio'r ardal gyfan hwn rhwng Trwyn Carreg Ddu a dechrau'r amddiffynfeydd yn y Patch, trwodd i'r ardal o flaen Gwesty Webley ac ar draws i'r clwb hwylio fel un ardal bolisi. Caiff Adlinio Rheoledig ei ystyried fel y polisi mwyaf priodol i'r ardal gyfan hon, sy'n cefnogi derbyn bod angen addasu rheolaeth yr ardal i gyd-fynd â'r newidiadau parhaol yn ymddygiad ceg yr aber. Nid yw hyn yn awgrymu bod angen cefnu ar yr holl amddiffynfeydd na'r gwrth all fod i ailgyflenwi ardal y tafod. Yn hytrach, mae'r polisi'n tynnu sylw at yr angen am ailasesiad o sut mae'r ardal gyfan hon yn cael ei rheoli.

Ar yr ochr ddeheuol, dylai hyn geisio cynnal Gorsaf yr RNLI a'r gymuned i'r gogledd ond mewn ffordd sy'n ystyriol o swyddogaeth naturiol y twyni. Caiff hyn ei ystyried yn gynaliadwy ac o werth, waeth be fo rheolaeth ceg yr aber ond, yn fanwl, mae sut fyddai hyn yn cael ei gyflawni'n dibynnu llawer ar sut gaiff ceg yr aber ei rheoli.

Ni fyddai gwelliant sylweddol yn yr amddiffynfa rhag llifogydd y tu ôl i Dwyni Poppit a byddai angen rheoli hyn trwy gynllunio ac addasu sut gaiff yr ardal ei defnyddio. Ni fyddai unrhyw warant y byddai amddiffynfeydd mewn gwirionedd yn gwarchod eiddo o fewn y twyni a byddai perygl sylweddol na fyddai rhagor o amddiffynfeydd yn dderbyniol oherwydd y gallai hyn effeithio'n sylweddol ar sut mae ceg yr aber yn datblygu a gallai fod â goblygiadau i reolaeth rhannau eraill yr ardal. Fodd bynnag, dylid cynnwys ystyriaeth o amddiffyn yr eiddo hwn wrth ddatblygu cynllun rheoli manwl.

Mae dogfen cynllun busnes ATFL yn nodi defnyddiau pwysig ar gyfer yr ardal, gan gynnwys parhad hyfywedd y fflyd bysgota, glanfeydd a defnydd adloniadol yr aber. Caiff y rhain eu hystyried yn bwysig i ddatblygiad yr ardal leol a chynnal twristiaeth, sydd â goblygiadau ehangach i'r ardal. Yn ystod ymgynghori ar y CRhT Draft, tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd Maes Carafanau Patch. Mae'r Parc yn cynnwys dros 100 o garafanau, sy'n ychwanegu'n sylweddol at ddefnydd a gwerth yr ardal at ei gilydd.

Mae angen ystyried pob un o nodweddion hyn yr ardal, ar yr un pryd â chydnabod rheolaeth bwysig yr ACA, rheolaeth yr amrywiol SoDdGA a'r pwysau cynyddol ar reolaeth ac amddiffynfeydd presennol wrth i'r aber geisio addasu.

Y bwriad fyddai cynnal y gymuned bysgota a'r defnydd adloniadol o gychod yn yr ardal, gan reoli ac ymateb i newid yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r amddiffynfa i Faes Carafanau Patch yn amddiffyn yn gymharol dda, ac mae hefyd yn amddiffyn yr allfa garthion. Fodd bynnag, os bydd y tafod yn bylchu, fel sy'n ymddangos yn debygol dros ben, byddai hyn ar unwaith yn rhoi pwysau ar y grwyn mwyaf deheuol. Yn y tymor hwy, gyda chynnydd yn lefel y môr, daw'n fwyfwy anodd dal llinell amddiffyn bresennol i Faes Carafanau Patch ac mae'n amheus a fyddai buddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn atgyfnerthu'r amddiffynfa hon ar ei llinell bresennol o unrhyw fudd.

Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i gynllunio sut i reoli'r lan yn y dyfodol, gan ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli newidiadau byrdymor. Mae angen cynllunio hyn ar y cyd â rheoli ceg yr aber. Mae angen ei ddatblygu'n fanwl fel bod y rhyngweithiad rhwng glannau Patch, y tafod a'r dylanwad ar Poppit yn cael eu hystyried mewn ffordd gyfannol. Yn y tymor canolig i hir, gallai hyn olygu bod rhywfaint o addasiad i lannau Maes Carafanau Patch yn debygol. Gall hyn beri colli rhai, neu efallai'r holl, leiniau carafanau isaf i'r ardal ac mae angen ystyried hyn heddiw er mwyn caniatáu amser ar gyfer addasiad o'r fath. Y farn yw y gallai lled ychwanegol a gallu addasu defnydd yr ardal hon fod yn hollbwysig i adlinio rheoledig at ei gilydd yn y dyfodol, er mwyn darparu rheolaeth gynaliadwy o'r lan yn y tymor hwy.

Byddai modd defnyddio amrywiol ddulliau. Gallai'r rhain gynnwys gadael i'r lan symud yn ôl, a allai olygu rheoli llif y sianel ar hyd glan y Patch gyda'r bwriad o adfer ond rheoli traeth mwy naturiol. Yna byddai defnyddio carthu manteisiol mewn ffordd fwy rheoledig yn cael ei ystyried. Efallai y byddai angen i ardal yr angorfeydd a'r cyfleuster pysgota newid hefyd. Heb ddatblygu agwedd mor drefnus, a heb bosibilrwydd cydgyllido, y polisi yn niffyg o safbwynt y CRhT a rheoli perygl llifogydd ac amddiffyn yr arfordir fyddai Dim Ymyriad Gweithredol.

Awgrymwyd, mewn ymateb i'r CRhT Drafft, y dylid isrannu'r ardal gyfan ymhellach, yn cwmpasu Poppit a Phen-yr-ergyd, yn enwedig o ran polisi Cadw'r Llinell ar gyfer y darnau amddiffynedig presennol. Tra gallai cynnal amddiffynfeydd presennol fod yn eithaf derbyniol yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, mae diffinio polisi Adlinio Rheoledig dros yr ardal gyfan yn tynnu sylw at y rhyngweithiadau ehangach sy'n gorfod cael eu hystyried. Ni fyddai'n atal rhag cynnal amddiffynfeydd presennol ond mae'n pwysleisio'r angen i reoli hyn mewn ffordd drefnus, gan edrych ymhellach na'r 20 mlynedd nesaf ac, felly, osgoi ymrwymo i agwedd anghynaliadwy.

O ran yr amddiffynfa ar hyd ffordd arfordirol y Gwbert, y farn yw bod rheoli'r ardal hon yn gynaliadwy, gan gydbwyso'r angen i wella effeithiolrwydd yr amddiffyniad yn erbyn yr angen i gadw arwyddocâd ecolegol y llethr arfordirol. Ochr yn ochr â hyn, y bwriad fyddai cadw'r ffordd ar hyd Coronation Drive. Caiff hyn ei ystyried yn gynaliadwy ond byddai angen agwedd ymaddasol o ran sut i reoli'r fynedfa. Byddai angen addasu rheolaeth fanwl yr ardal hon i newidiadau yn yr aber. Mae posibiliadau ar hyd yr adran hon i wella a hybu datblygu cynefin ymyl aber a gadael i hyn ddatblygu'n unol â chynnydd yn lefel y môr. Gallai hyn olygu rhywfaint o ymyriad ar hyd y blaendraeth a fyddai hefyd yn cefnogi amddiffyn y lan. Byddai'r dewis arall o adael i'r ffordd gael ei cholli'n peri colli mynediad i bob diben at eiddo ar y llethr tu cefn fel na fyddai modd defnyddio'r eiddo. O ran gwarchod natur ni fyddai fawr ddim budd o symud y ffordd yn ôl gan na fyddai'n creu lled sylweddol nac yn lleihau amlygrwydd y lan. Byddai hyn hefyd yn gofyn adeiladu amddiffynfeydd newydd. Byddai agwedd ymaddasol at reoli'r amddiffynfa'n caniatáu datblygu'r un cynefin ymylol ag y byddai Dim Ymyriad Gweithredol.

Mewn rhannau eraill o lannau'r aber mewnol, y polisi fyddai Dim Ymyriad Gweithredol, gydag eithriad penodol glan y ffordd ym mhen gogleddol Llandudoch. Yma, y polisi mewn perthynas â'r ffordd fyddai Cadw'r Llinell. Caiff ei ystyried bod hyn yn cyflawni'r amcan o gynnal mynediad at y cymunedau gwledig i gyfeiriad Poppit. Gallai'r ffordd fod mewn mwy o berygl llifogydd ac, wrth roi sylw i hyn, byddai'n ddoeth edrych ar sut fyddai rheoli lleol yn cynnal defnyddio'r lanfa ac ardal adloniadol fach ac eiddo tua'r de.

Yn ardal Aberteifi caiff cynnal a gwella amddiffynfeydd ar hyd dwy ochr yr afon ei weld yn dechnegol gynaliadwy. Ni fyddai unrhyw gynnydd amgylcheddol wrth agor ardaloedd i lifogydd naturiol oherwydd eu hanes maith o ddefnydd dynol. Fodd bynnag, byddai rheoli perygl llifogydd a rheoli cynllunio'n ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r ardal yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys edrych yn feirniadol ar wydnwch adeiladau presennol a derbyn y byddai perygl sylweddol fwy o lifogydd dŵr arwyneb a llifogydd digwyddiadau eithafol wrth i lefel y môr gynyddu.

I fyny'r afon o'r bont ar yr ochr ogledd yr ased allweddol yw'r briffordd. Byddai modd gwarchod hon yn lleol. Ar yr ochr ddeheuol y dull rheoli eginol yw adlinio. O safbwynt rheoli llifogydd ni fyddai unrhyw fwriad i gynnal amddiffynfeydd. Caiff rheoli ei hybu trwy addasu cynefin.

Mae angen ystyried y perygl ychwanegol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr ymhellach i fyny'r afon mor bell â Llechryd. Nid yw'n cael ei ystyried y byddai llifogydd lefel y môr uniongyrchol yn effeithio ar eiddo ond byddai'n cynyddu cloi llanwol ac, felly, mae'n ffactor sylweddol mewn rheoli llifogydd afonol.

## 6 Crynodeb Rheoli.

Bwriad y cynllun ar hyd yr arfordir agored yw gadael i'r arfordir ymddwyn yn naturiol. Byddai angen rheolaeth yn Afon Teifi. Nid oes teimlad y byddai dull rheoli'r fynedfa i Afon Teifi'n elwa ar fod yn rhy ranedig fel yn CRhT1 ac mae ansicrwydd ynghylch rheoli'r ardal hon yn fanwl, sydd angen sylw islaw lefel polisi. Rhannwyd y Parth yn bedair Ardal Reoli a chaiff polisi ei grynhoi isod.

**M.A.8 GORLLEWIN CLOGWYNI ABERTEIFI:** O Ben-y-Bal i Drwyn Cemais.

| **Uned Bolisi** | | **Cynllun Polisi** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 5.1 | Pen-y-Bal i Drwyn Cemais | NAI | NAI | NAI | |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

**M.A.9 ABER AFON TEIFI:** O Drwyn Cemais i'r Gwbert ac ymlaen i'r gogledd o Landudoch.

| **Uned Bolisi** | | **Cynllun Polisi** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2025** | **2055** | **2105** | **Sylw** |
| 5.2 | Trwyn Cemais i Drwyn Carreg-ddu | NAI | NAI | NAI | Ni fyddai hyn yn cau allan rheoli lleol o'r lanfa yng Nghastell Penrhyn yn amodol ar ganiatâd arferol |
| 5.3 | Twyni Poppit a Phen-yr-ergyd | MR | MR | MR | Gofyniad am gynllun rheoli cyfannol manwl. Polisi NAI yn niffyg |
| 5.4 | Gorllewin yr Aber Mewnol | NAI | NAI | NAI | |
| 5.5 | Gogledd Llandudoch | HTL | HTL | HTL | Gyda'r bwriad o gynnal y ffordd fynediad |
| 5.6 | Bryn-y-môr | NAI | NAI | NAI | |
| 5.7 | Coronation Drive | HTL | HTL | MR | Agwedd ymaddasol i gynnal datblygiad cynefin ymylol |
| 5.8 | Ffordd Gwbert | HTL | HTL | HTL | |
| 5.9 | Clogwyni Gwbert | NAI | NAI | NAI | |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

1

**M.A.10 ABERTEIFI:** O Landudoch i Aberteifi.

| Uned Bolisi | | Cynllun Polisi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2025 | 2055 | 2105 | Sylw |
| 5.10 | Llandudoch a Fferm y Castell | NAI | NAI | NAI | |
| 5.11 | Gogledd Aberteifi | HTL | HTL | HTL | Gofyniad i reoli cynllunio ac ystyried materion perygl llifogydd wrth ailddatblygu'r ardal |
| 5.12 | De Aberteifi | HTL | HTL | HTL | Gofyniad i reoli cynllunio ac ystyried materion perygl llifogydd wrth ailddatblygu'r ardal |
| 5.13 | I fyny'r afon o bont y Ffordd Osgoi – Gogledd | MR | MR | MR | Gwella amddiffynfa'r ffordd yn ôl o'r aber |
| 5.14 | I fyny'r afon o bont y Ffordd Osgoi – De | MR | MR | MR | Yn amodol ar ddiddordeb gwarchod natur |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

**M.A.11 MWNT A CHLOGWYNI ABER-PORTH:** O Ynys Aberteifi i Bencribach

| Uned Bolisi | | Cynllun Polisi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2025 | 2055 | 2105 | Sylw |
| 5.15 | Mwnt a Chlogwyni Aber-porth | NAI | NAI | NAI | Rheoli addasol o fynediad a chyfleusterau yn y Mwnt |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

# PDZ5
## Datganiadau Ardaloedd Rheoli

**Gorllewin Clogwyni Aberteifi**
*Pen y Bal i Drwyn Cemais*

**Aber Afon Teifi**
*Trwyn Cemais i'r Gwbert a thrwodd i Ogledd Llandudoch*

**Aberteifi**
*Llandudoch i Aberteifi*

**Mwnt a Chlogwyni Aber-porth**
*Ynys Aberteifi i Bencribach*

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Lleoliad:** | **Gorllewin Clogwyni Aberteifi** |
| **Cyfeirnod yr Ardal Reoli:** | **M.A. 8** |
| **Parth Datblygu Polisi:** | PDZ5 |

* Sylwch: Seiliwyd mapio traethlin ddisgwyliedig ar gyfuniad o ddata arolygu, dadansoddi mapiau hanesyddol ac asesiad geomorffolegol gyda lwfans am gynnydd yn lefel y môr. Oherwydd ansicrwydd cynhenid rhagweld newid yn y dyfodol, mae'r rhagfynegiadau o angenrheidrwydd yn arwyddol. I'w defnyddio y tu hwnt i ddiben y cynllun rheoli traethlin, dylid cyfeirio at y data sylfaenol.

Caiff y disgrifiadau canlynol eu darparu i gynorthwyo dehongli'r map drosodd.

**Sefyllfa'r draethlin ymhen 100 mlynedd:**
Bwriad y mapiau canlynol yw crynhoi sefyllfa ddisgwyliedig y draethlin ymhen 100 mlynedd dan ddau senario "Gyda Rheoli Presennol" a gyda'r "Polisi Dewisol Drafft" sy'n cael ei gynnig trwy'r Cynllun Rheoli Traethlin.

- - - - - - - Mewn rhai ardaloedd nid yw'r polisi dewisol yn newid o'r hyn yw gyda'r rheoli presennol. Mewn rhai ardaloedd lle mae amddiffynfeydd caled mae modd nodi hyn yn fanwl gywir. Mewn cylchoedd eraill mae mwy o ansicrwydd. Serch hynny, lle bo newid fel copa clogwyn yn debygol o ddiffinio'r draethlin yn hollol amlwg caiff amcangyfrif o'r sefyllfa ei ddangos fel llinell sengl.

- Lle bo gwahaniaeth rhwng Gyda Rheoli Presennol a'r Polisi Dewisol Drafft, caiff y gwahaniaeth hwn ei wneud trwy ddangos dwy linell wahanol:

——— Gyda Rheoli Presennol.
——— Polisi Dewisol Drafft.

**Parthau Perygl Llifogydd**

Parthau Perygl Llifogydd Cyffredinol. Caiff esboniad y parthau hyn ei ddarparu ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd www.environment-agency.gov.uk. Dengys y mapiau yn nogfen Ddrafft hon y CRhT lle gallai polisi CRhT ddylanwadu ar reoli perygl llifogydd.

Ardaloedd lle mae polisi drafft y CRhT yn bwriadu dal i reoli'r perygl hwn.

Ardaloedd lle byddai'r polisi'n caniatáu mwy o berygl llifogydd yn ystod y 100 mlynedd.

Dylid darllen y mapiau ar y cyd â thestun dogfen Drafft y CRhT.


Isgell Cynllun Rheoli Traethlin 9
Map Lleoliad Man Cychwyn
Ardal Reoli 8
Ardal Reoli
Uned Bolisi
Parth Datblygu Polisi
Henebion Cofrestredig
Caergybi
Bae Colwyn
Bangor
Caernarfon
Dolgellau
Aberystwyth
Abergwaun
Caerfyrddin
Abertawe
MA8
MA7
PU5.1
PU4.19
PU4.18
PU4.17
PU4.15
PU4.16
Moylgrove / Trewyddel
Nevern / Nanhyfer
Pembrokeshire Coast Path
Cemaes Head
0
0.75
1.5 Cilomedr
Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr y Llyfrfa: Hawlfraint y Goron - hawlfraint y Goron. Trwydded neilltuedig AL 100026380
Allwedd:
Sefyllfa'r Draethlin ym mhen 100 mlynedd:
Byddai'r Polisi Dewisol yr un â Gyda Rheoli Presennol
Gyda Rheoli Presennol pan fo hyn yn wahanol i'r Polisi Dewisol
Polisi Dewisol pan fo hyn yn wahanol i Gyda Rheoli Presennol
Ramsar
ACA
AGA
SoDdGa
GNG
Parth Perygl Llifogydd AA 3
Parth Perygl Llifogydd AA 3 lle na fyddai mwy o debygolrwydd llifogydd dan bolisi Drafft y CRhT
ROYAL HASKONING

## CRYNODEB O ARGYMHELLION A CHYFIAWNHAD Y CYNLLUN DEWISOL

### BWRIAD Y CYNLLUN:

Bwriad y cynllun yw caniatáu datblygiad naturiol y draethlin. Dim ond ardaloedd lleol iawn sydd o amddiffynfa, yn gysylltiedig â mân ffyrdd a llwybr troed yr arfordir. Ni fyddai cynnal amddiffynfeydd o'r fath yn effeithio ar fwriad ehangach Dim Ymyriad Gweithredol. Nod y cynllun yw na fyddai unrhyw gynnydd mewn amddiffynfa yn y cylch. Fel hyn caiff swyddogaeth naturiol yr arfordir ei gynnal. Mae dwy gaer bentir o arwyddocâd hanesyddol yn yr ardal. Nid bwriad y cynllun fyddai gwarchod y rhain rhag erydiad a byddai angen gweithredu mesurau angenrheidiol ar gyfer cofnodi hanesyddol.

### MATERION ALLWEDDOL / RISG AC ANSICRWYDD:

Byddai'r erydu araf cysylltiedig â'r lan yn gyffredinol yn parhau ac mae unrhyw ansicrwydd yn annhebygol iawn o ddylanwadu ar ddewis rheolaeth yn y cylch.

### CAMAU GWEITHREDU:

| CAM GWEITHREDU | PARTNERIAID |
|---|---|
| Arolygu'r draethlin cysylltiedig a rheoli llwybrau troed. | PCP |
| Asesu'n fanwl yr effaith all fod ar yr amgylchedd hanesyddol | |
| Cynllunio adleoli llwybr yr arfordir | PCP |

## CYFLAWNI'R CYNLLUN

**CRYNODEB O BOLISÏAU PENODOL**

| Uned Bolisi | | Cynllun Polisi | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2025 | 2055 | 2105 | Sylw |
| 5.1 | Pen-y-Bal i Drwyn Cemais | NAI | NAI | NAI | . |
| Allwedd: HTL – Cadw'r Llinell, A – Symud y Llinell Ymlaen, NAI – Dim Ymyriad Gweithredol<br>MR – Adlinio Rheoledig | | | | | |

| POLISI DEWISOL I WEITHREDU'R CYNLLUN: | |
|---|---|
| **O'r presennol** | Cynnal swyddogaeth naturiol yr arfordir. |
| **Tymor canolig** | Cynnal swyddogaeth naturiol yr arfordir. |
| **Hirdymor** | Cynnal swyddogaeth naturiol yr arfordir. |

## GOBLYGIADAU'R CYNLLUN

### NEWIDIADAU O'R RHEOLI PRESENNOL

Yn CRhT 1 roedd polisi dros gadw'r llinell yn ddetholus yn Abercibwr, oherwydd y ffordd. Tra byddai modd cadw amddiffynfeydd yn lleol, mae'r cynllun cyflawn i'r cylch yn newid i Ddim Ymyriad Gweithredol.

### CRYNODEB ECONOMAIDD

| Economeg (£k PV) | erbyn 2025 | erbyn 2055 | erbyn 2105 | Cyfanswm PV £k |
|---|---|---|---|---|
| Iawndal NAI | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Iawndal y Cynllun Dewisol | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Buddiannau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Costau | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |

### RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDIAD

#### COLLED DEBYGOL

Ni nodwyd unrhyw eiddo mewn perygl erydiad na llifogydd.

#### BUDDIANNAU'R CYNLLUN

Mae'r cynllun yn caniatáu swyddogaeth naturiol yr arfordir gan gynnal gwerthoedd gwarchod natur a thirwedd.

| PDZ 5 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Amcan AAS | Effaith y Polisi Dewisol ar gyfer pob Cyfnod | | | |
| | 1 | 2 | 3 | Lliniaru |
| Unedau Polisi 5.1 i 5.15 | | | | |
| Cynnal prosesau naturiol, cynnal a gwella cyfanrwydd safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn rhyngwladol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol o'u nodweddion diddordeb (cynefinoedd a rhywogaethau). | | | | |
| Gwarchod ac osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd gwarchod natur a ddynodwyd yn genedlaethol a chyfoethogi'r diddordeb dynodedig lle bo hynny'n ymarferol. Cynnal / cyflawni cyflwr ffafriol. | | | | |
| Gwarchod ac osgoi effeithiau andwyol ar gynefinoedd BAP cenedlaethol a lleol a'u cyfoethogi lle bo hynny'n ymarferol. | | | | Creu cynefin |
| Cynnal prosesau naturiol a chadw datguddiadau daearegol yn holl safleoedd daearegol a ddynodwyd yn genedlaethol. | | | | |
| Gwarchod a chyfoethogi tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol mewn cysylltiad â pheryglon llifogydd arfordirol ac erydiad ac osgoi gwrthdaro ag Amcanion AHNE a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. | | | | Dylunio priodol |
| Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i asedau rhestredig ac asedau etifeddiaeth ddiwylliannol eraill pwysig yn rhyngwladol a chenedlaethol, ynghyd â'u safleoedd a'u hamgylchedd. | | | | Cloddio a chofnodi |
| Lleihau effaith polisïau ar weithrediadau a gweithgareddau morol. | | | | |
| Lleihau perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i isadeiledd hanfodol a chynnal gwasanaethau hanfodol. | | | | |
